
# HUGH WILLIAMS, PANT-Y-SAER, TY'NYGONGL

(1843-1904)



Fferm Pant-y-Saer, 1904

## HUGH WILLIAMS, PANT-Y-SAER, TY'NYGONGL (1843-1904)

Pan fu farw Hugh Williams, Pant-y-Saer, Ty'nygongl, Llanfair Mathafarn Eithaf, mewn damwain yn 1904, disgrifiwyd ef fel un o '*wŷr mawr Môn*', '*yn ddïau yn un o oreuon dosparth o ddynion sydd yn dechreu myn'd yn brin yn y wlad'*, ac yn *'un o ddynion hynotaf Ynys Môn yn yr oes bresenol'*. Roedd yn adnabyddus fel ffermwr, blaenor yng nghapel Tabernacl, un o arweinyddion y Methodistiaid Calfinaidd ym Môn, Rhyddfrydwr, dirwestwr, cadeirydd Ysgol y Bwrdd Ty'nygongl, aelod o'r cyngor plwyf, dadleuwr, gwerinwr, llenor ac aelod llu o fudiadau a chymdeithasau.

Priododd â **Margaret Edwards** (1867-1956), Tŷ Newydd, Ty'nygongl, yn 1901. Roedd Margaret (Maggie) yn fodryb (chwaer mam) fy nhaid, Henry Richard Rowlands (1889-1966), Awelon, Ty'nygongl. Trwy'r etifeddiaeth hon y daeth fferm Pant-y-Saer yn eiddo i'r teulu.



*Margaret Edwards*

Rwyf wedi medru casglu llawer o wybodaeth am Hugh Williams, a hynny'n bennaf trwy eitemau yn yr archifau ac erthyglau ym mhapurau newydd y cyfnod. Mae dyddiadur Hugh Williams o'r flwyddyn 1885, a phapurau eraill sy'n berthnasol iddo, yn cael eu cadw yn Archifau Môn.[1] Rwyf wedi cofnodi'r dyddiadur ac wedi ysgrifennu amdano mewn traethawd arall sydd ar wefan *Casgliad y Werin*.[2]

Er na chafodd addysg ffurfiol eang mae'n amlwg bod Hugh Williams yn ŵr addysgedig ac yn un o arweinyddion mwyaf diwyd ei gymuned a'i gyfnod. Yn wir, roedd cymdeithas a chapel Ty'nygongl a Llanfair Mathafarn Eithaf yn ffynnu ar y pryd, a'r trigolion yn rhoi cefnogaeth frwd i lu o weithgareddau.[3] Yr oedd yn 'oes aur' yn hanes yr ardal, ac roedd Hugh Williams yn ei chanol.

Yr oedd Hugh Williams yn nodweddiadol o ddynion cefn-gwlad Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar hugain - yn anghydffurfiwr, yn ddirwestwr ac yn Rhyddfrydwr. Efallai nad oedd yn un o 'Enwogion Môn' fel y cyfryw (er bod sôn amdano yn *Enwogion Môn* gan y Parch. R. Hughes - gweler isod), ond yn sicr yr oedd yn hanu o'r un sylfaen, ac yn ŵr dylanwadol yn ei ardal. Fel y dywed David Pretty wrth gyfeirio at ddynion amlwg y cyfnod:[4]

> ' … one cannot fail to be impressed by the confident leadership of men who sprang from the common people … Again and again, their names appear in the forefront: at

---

[1] Archifau Môn WM2605/2.

[2] Gweler hefyd Emyr Roberts, *Hugh Williams, Pant-y-Saer, Ty'nygongl, Sir Fôn a'i Ddyddiadur 1885*, Fferm a Thyddyn, 64 (2019).

[3] Gweler Emyr Roberts, *Bro Goronwy: Hanes Plwyf Llanfairmathafarneithaf 1870-1914* (Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst, 2019).

[4] David A. Pretty, *Two Centuries of Anglesey Schools* (Cymdeithas Hynafiaethwyr Môn, Llangefni, 1977), …

> the monthly meetings and Association (the twin Methodist power-centres), on Liberal platforms and at innumerable educational meetings. They were the opinion formers, the articulate, eloquent and determined guardians of Nonconformist interests … the same men dominated caucus and chapel with equal confidence and authority.'

**Teulu Hugh Williams**

Roedd Hugh yn fab i **David** (1811-1886) a **Sydney** (1814-1900) Williams, Pant-y- Saer. Roedd David yn fab i Hugh Williams (1759-1837) ac Elinor Williams (1764-1819), Pant-y-Saer. Roedd Hugh Williams, y tad, yn un o'r 'Gwrthwynebwyr Protestannaidd' o'r plwyf ac anfonodd ddeiseb ym mis Tachwedd 1811 at Esgob Bangor yn gofyn am dystysgrif, yn unol â chyfraith gwlad y cyfnod, i sefydlu lle o addoliad Methodistaidd Calfinaidd ym Methesda, ar fuarth fferm Ty'n-y-Gongl.[5]

**David** oedd yr ieuengaf o deg o blant – cawsant rywfaint o enwogrwydd mewn erthygl yn *Baner ac Amserau Cymru*:[6] *'Teulu Hirhoedlog – Y mae yn ammheus genym a oes yn Nghymru gynnifer o frodyr neu chwiorydd wedi cyrhaedd oedran y rhai hyn. Fe'u magwyd yn Mhant y Saer, Llanfair mathafarn-eithaf. Y maent yn ddeg o nifer. Oedran Elizabeth Hughes, yr hynaf, yw 80; a David Williams, yr ieuengaf, yn 55. Y mae pedwar o feibion o honynt, a chwech o ferched; ac y maent oll yn iach.'* Un o chwiorydd David Williams oedd Ann (1800-1874) a briododd ag Owen Jones, Minffordd (1802-1879), sef mab y bardd Owain Mathafarn (1770-1855).

Roedd **Sydney** yn ferch i William Thomas (1781-1865), Rhosboeth, Llanfair Mathafarn Eithaf – *'[un o] golofnau yr achos [Methodistaidd yn Nhy'n-y-gongl] … oedd ddyn da: gorfoleddai, weithiau, ar hyd y ffordd o'r capel i'w gartref. Byddai ei 'amen' cynnhes yn gymmhorth i lawer pregethwr.'*[7] Yr oedd ganddi frawd, Moses Williams (1820-1879), casglwr trethi y plwyf ac Ysgrifenydd Clwb Cleifion Marian Glas.[8]

Yn ei deyrnged i Hugh Williams ar ôl ei farwolaeth, dywedodd Y Parch. John Roberts *'Yr oedd ei dad a'i fam yn un o ragorolion y ddaear mewn crefyddoldeb a ffyddlondeb. Dygwyd ef i fyny yn awyr y ddyledswydd deuluaidd ac yn swn y geiriau "Awn i dŷ yr Arglwydd" o'r dechrau.'*[9] Mae'n amlwg bod dylanwad crefyddol wedi bod yn gryf o'r cychwyn ym mywyd Hugh Williams, a bod hanes o arwain a gwasanaethu'r achos anghydffurfiol o fewn y teulu.

Priodwyd David Williams a Sydney ar 9 Tachwedd 1841 yn Llanfair Mathafarn Eithaf. Mae darn o frodwaith gennym yn y teulu gyda'r enwau David a Sydney Williams 1850 a'r enw

[5] Dewi Jones a Glyndwr Thomas (gol.), *Nabod Môn* (Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst, 2003), 71.
[6] *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Mehefin 1866.
[7] Y Parch. John Pritchard, *Methodistiaeth Môn* (1888), 175.
[8] *Y Genedl Gymreig*, 13 Mawrth 1879.
[9] John Roberts, *Llusern*, Cyf. XIII, Rhif 155, Tachwedd 1905, 7.

‘Glanydon’ wedi ei frodio o dan lun o dŷ moethus. Nid wyf yn sicr o gysylltiad y teulu â ‘Glanydon’ – hyd y gwn i, nid oes Glanydon yn Llanfair Mathafarn Eithaf (ond mae tŷ o’r enw Glanydon yn Nhraeth Coch).

Bu farw David Williams ar 27 Mawrth 1886 – cofnodwyd ei fod yn *‘anwyl dad y bardd talentog Gwilym Mathafarn, Lerpwl a Chemlyn.’*[10] Bu farw Sydney Williams ar 17 Medi 1900. Nid wyf yn gwybod lle cawsant eu claddu.

**Hugh** oedd yr hynaf o bump o blant David a Sydney Williams. Ei frodyr a chwiorydd oedd:



*Y Frodwaith 1850*

**William** (1846-1918) – o dan yr enw ‘Gwilym Mathafarn’, yr oedd William Williams yn un o lenorion nodedig y cyfnod. Symudodd i Lerpwl yn 1865 i weithio fel saer coed i’r adeiladydd adnabyddus, David Hughes, o Gemaes, Môn. Cyn hir, mentrodd ar ei liwt ei hun ac adeiladodd tai yn ardaloedd Kirkdale, Walton, Garston, Mossley Hill a Wavetree. Mae hanes ei yrfa a’i fywyd yn *The Welsh Builder on Merseyside: Annals and Lives* gan J.R. Jones, lle y ddisgrifwyd fel *‘A very popular man in all circles and endowed with many gifts which he gave freely to his generation.’*[11] Ymunodd ag Eglwys Loegr a bu’n bregethwr lleyg yn eglwysi’r ddinas, o dan drwydded arbennig gan yr Esgob.

Roedd yn fardd toreithiog, ac mae nifer o’i gerddi i’w gweld yn Archifdy Môn.[12] Priododd â Mary, o blwyf Llanfairmathafarneithaf, a chawsant ddau o feibion – Arthur Goronwy a William David. Bu farw ar 6 Mehefin 1918 yn Mossley Hill yn 72 mlwydd oed.[13] Dywedir amdano ‘*Roedd yn enghraifft dda o werinwr diwylliedig a bardd y gymuned Gymraeg.’*[14]

Ceir nifer o ysgrifau yn coffáu Gwilym Mathafarn,[15] ac mae sylwadau difyr am ei fagwraeth mewn rhai ohonynt:

> ‘… Gresyn garw na fuasai ei rieni wedi dilyn y golofn dân pan oedd Gwilym yn llanc ym Mon. Gwelwyd fod yn y bachgen ddefnydd “Person.” Er cymaint o ddwrdio a dyrnu a wneir ar hen bersoniaid Cymru, anghofir un gymwynas a wnaeth ugeiniau ohonynt, sef rhoddi coleg yn ddidraul i lawer o fechgyn o fythynod Cymru. Darfu i Ficer Llanfair M. E. gynnyg i rieni G. Mathafarn, ond

[10] *Y Drych,* 22 Ebrill 1866; *The North Wales Express,* 9 Ebrill 1866.
[11] J. R Jones, *The Welsh Builder on Merseyside* (1946), 148-9.
[12] Archifau Môn, WDAC.
[13] *Y Clorianydd*, 5 Mehefin 1918.
[14] *Yr Angor*, Mehefin 2015.
[15] *Y Brython*, 13 Mehefin 1918; *Y Clorianydd*, 19 Mehefin 1918.

> yr oedd y gair "coleg" yn fwgan i'r fam, a gorfu i Gwilym ddilyn galwedigaeth Joseff o Nasareth, er dirfawr golled i'r Eglwys yng Nghymru …'[16]

Mae'r sylw am ymateb y teulu, a'r fam yn arbennig, tuag at y cynnig o 'goleg' i'w mab â'i '*alluoedd mwy na'r cyffredin'* yn ddifyr ac, y mae'n debyg, yn adlewyrchu agwedd Ymneilltuol y cyfnod a oedd yn gadarn yn erbyn yr Eglwys ac o ddarpariaeth addysgol ar wahan i'r Ysgol Sul. Serch hynny, *'Ni chollodd [Gwilym Mathafarn] ei gariad at ei sir enedigol'*; yr oedd yn beirniadu yn eisteddfodau'r ynys yn rheolaidd ac yn cymeryd rhan mewn cyfarfodydd adloniadol.[17]

**David** (1849- ) – morwr oedd David Williams. Mae'n debyg iddo fod yn un o griw y llong *Annie & Jane* rhwng 1869 a 1876, ac yn Gapten ar *John Parry* rhwng 1877 a 1879; fe gyfranodd at gasgliad yn Y Tabernacl yn 1877.[18] Ond ar wahan i hyn, ychydig a wyddom amdano.

**Mary** (1855-1914 ) – priododd Mary â Henry Williams (1851-1921), Cae Eithin, Llaneugrad, morwr, yn Y Tabernacl ar 9 Rhagfyr 1879;[19] yr oedd Mary yn gweini yn stad y Parciau.[20] Cawsant ddwy ferch - Catherine a Catherine Ann - ond bu'r ddwy farw yn fabanod (*'Gwywasant cyn ymagor'* yw'r ysgrif ar eu bedd); ysgrifennodd Gwilym Mathafarn gerdd sy'n sôn am farwolaeth Catherine Ann.[21] Hefyd, cawsant fab, David Awstin Williams (1894-1965) – *'dyn lôn diwylliedig, hanesydd lleol, bardd a chofnodydd hanes Capel Paradwys, Llanallgo.'*[22] Ysgrifennodd Gwilym Mathafarn farwnad *'Fy Chwaer, Mrs Mary Williams, Cae Eithin, Marian-glas.'*[23]

**Ellen/Elin** (1864 -) – priododd Ellen â Hugh Williams, mab hynaf Hugh Williams, Brynymor, Moelfre, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, West Derby, Lerpwl, ar 7 Ebrill 1888.[24] Symudodd Ellen a Hugh Williams i Godre'rgraig, Sir Forgannwg, lle bu Hugh yn gweithio fel glöwr yn ôl cyfrifiad 1911; cawsant bump o blant.

Ganed **Hugh Williams** ar 11 Rhagfyr 1843. Yng nghyfrifiad 1871 mae'n cael ei ddisgrifio fel 'mab ffermwr' ac yn 1881 fel 'gwas cyffredinol/gweithiwr amaethyddol,' sydd yn awgrymu ei fod yn gweithio ar ffermydd eraill cyn etifeddu Pant-y-Saer oddiwrth ei dad. Erbyn 1901 yr oedd yn 'gyflogwr', gyda Margaret Jones (morwyn, 22) a William Owen (gwas, 14) hefyd yn gwasanaethu ar y fferm.

---

[16] *Y Clorianydd*, 26 Mehefin 1918; *Y Llan*, 21 Mehefin 1918.
[17] Er enghraifft, *Y Genedl Gymreig*, 3 Ionawr 1878.
[18] *Y Drysorfa*, 561, Gorffennaf 1877.
[19] *Y Goleuad*, 13 Rhagfyr 1879; *Y Genedl Gymreig*, 18 Rhagfyr 1879.
[20] *Yr Arwydd*, Mehefin 1990.
[21] Archifau Môn, WDAC 7.
[22] D. Jones a G. Thomas, op. cit., 348.
[23] Ym meddiant Dewi Jones, y Benllech.
[24] *Y Genedl Gymreig,* 18 Ebrill 1888; *The North Wales Express,* 20 Ebrill 1888.

Priododd Hugh Williams â **Margaret Edwards**, Ty Newydd, ar 15 Tachwedd 1901 yn Y Tabernacl; roedd Margaret yn 34 mlwydd oed a Hugh yn 57 oed ar y pryd.[25] Rwyf yn sôn yn helaethach am Margaret/Maggie yn fy nhraethawd ar hanes teulu Rowlands.

**Pant-y-Saer[26]**

Roedd teulu Hugh Williams wedi bod yn ffermio Pant-y-Saer fel tenantiaid ers canol y 1700au. Yn ei dystiolaeth i'r Comisiwn Tir (gweler isod), dywedodd pan aeth ei hen-daid, sef William Hughes, i mewn i'r fferm gyntaf fel tenant yr oedd y tŷ a'r adeiladau yn adfeilion. Mae'n amlwg bod Pant-y Saer yn fferm eithaf adnabyddus yn y cyfnod – mae'n cael ei dangos ar fap 1795 John Evans o Ogledd Cymru, er enghraifft.

Mae'n debyg bod sawl perchen i Bant-y-Saer dros y degawdau, ac ar ddechrau y 1800au fe brynwyd y fferm gan deulu Stad Bulkeley, gyda Hugh Williams yn denant; mae mapiau degwm yn dangos bod hon yn fferm 34 erw. Gwerthwyd y fferm yn 1849 i deulu Roberts, a bu'n rhan o Stad Craigwen.

Mae cyfrifiadau 1851, 1861 a 1871 yn cyfeirio at Bant-y-Saer fel fferm o 38/39 erw – fferm o faint cymedrol o'r ffermydd oedd yn y Sir yn y cyfnod. Y mae cytiau hanesyddol o oes Rhufeinig yng nghaeau'r marian ar y fferm, *Cytiau'r Gwyddelod* fel y gelwir yn lleol, a'u cloddwyd yn 1932-33.[27]

Cyfeirir at Bant-y-Saer mewn cerdd gan *Glanmeurig*, sy'n sôn am ddychwelyd i Sir Fôn:

> 'Pasia heibio bentref Pentraeth
>
> Am dy enedigol fro;
>
> Os y byddi mor garedig,
>
> Erfyn arnaf wnaf yn daer,
>
> Er mwyn Joseph galw heibio
>
> Ffermdy swynol Pantysaer.'[28]

Tenant blynyddol oedd Hugh Williams ar y cychwyn, ac yr oedd yn frwd dros achos y tenantiaid (gweler isod). Mae'n debyg yr ail-adeiladwyd y tŷ ac adeiladau'r fferm yn y 1870au. Prynodd Hugh Williams Pant-y-Saer, a chaeau cyfagos, fel rhan o ocsiwn a


---

[25] *Yr Herald Cymraeg,* 19 Tachwedd 1901, 5; *Carnarvon and Denbigh Herald*, 22 Tachwedd 1901; hysbysiad teulu yn *Gwalia*, 26 Tachwedd 1901.

[26] Noder rydym yn cyfeirio at Pant-y-Saer Isaf, nid Uchaf – mae dau Bant-y-Saer yn Nhyn-y-Gongl. Hefyd, weithiau mae'r cyfeiriadau at Pantysaer (un gair), neu Pantsaer.

[27] *Archaelogia Cambrensis*, Mehefin 1934.

[28] *Gwalia*, 29 Mawrth 1898.


COUNTY OF ANGLESEY
GREAT AND IMPORTANT SALE
OF VALUABLE
Freehold Farms and Tenements,
Residential Property, Building Sites, &c.
Particulars, Plans & Conditions
OF SALE OF VALUABLE
Freehold Properties
IN THE SEVERAL PARISHES OF
Llanfairmathafarneithaf, Llanallgo, Llanddyfnan, Pentraeth, Llanddona, Llanwenllwyfo & Llaneilian (undivided), Llaneilian, Amlwch, Llanerchymedd, Llanfechell, Heneglwys, Llangristiolus, and
IN THE TOWN OF HOLYHEAD.
WHICH
MESSRS.
W. DEW & SON
WILL
OFFER FOR SALE BY PUBLIC AUCTION,
AT
THE TOWN HALL, LLANGEFNI,
ON
THURSDAY, the 6th SEPTEMBER, 1894,
AT 12 O'CLOCK NOON.

*Catalog yr arwerthiant, 1894*


gynhaliwyd ar 6 Medi 1894 yn Llangefni.[29] Disgrifwyd Pant-y-Saer yn y catalog arwerthiant fel hyn:

'The house on this lot is neat and well built and contains Parlour, Kitchen, Dairy and 2 Bedrooms. The Outbuildings comprise Barn, Stable, Cart Shed, and Granary above, and Bakehouse. The land is in most part good, stands well and from this holding grand Marine Views are obtained.'[30]

Talodd £790.0.0 am y fferm – cyfanswm o 27 erw – a £13.0.0 am y caeau cyfagos – tua 9 erw.[31] Codwyd rhan o'r cyfalaf gan Hugh Williams drwy ad-dalu iddo £200 'a fenthyciwyd gan Hugh Williams, Pantysaer, ers blynyddoedd i dalu am yr adaelwaith ynglun ar Capel [Tabernacl] dywededig.' [32] Mae'n debyg bod hyn yn cyfeirio at benthyciad a wnaethpwyd yn wreiddiol gan Hugh Williams pan atgyweirwyd Capel Tabernacl yn 1878, ac a dalwyd yn ôl iddo gan John Prydderch Williams, Siop Ty'nygongl, a swyddogion eraill yng Nghpel Tabernacl yn 1894. Codwyd morgais ar yr eiddo rhwng Hugh Williams, a Benjamin Williams ac Ellen Williams.

Mae dyddiadur 1885 Hugh Williams yn sôn am ei waith beunyddiol. Roedd yn fferm gymysg, gyda gwartheg, defaid, ceffylau, moch, a gwyddau, ac roedd yn tyfu rwdins, tatws, maip, ceirch, haidd, gwair, a betys cochion. Yr oedd Hugh Williams hefyd yn helpu ar ffermydd cyfagos, ac yn dyrnu arnynt adeg y cynhaeaf.

Yn 1897 cafwyd cyhuddiadau o herwhela ar dir Pantysaer, ac yr oedd Hugh Williams yn dyst yn y llys – fe ddirwywyd William Thomas 2s. 6d. a chostau, ac fe gwrthodwyd gweddill y gwysion.[33]




*Map Pant-y-Saer yn arwerthiant 1894*

[29] *North Wales Chronicle*, 8 Medi 1894; *Carnarvon and Denbigh Herald,* 14 Medi 1894..
[30] Archifau Môn, WD2/417.
[31] Mae adroddiadau o'r arwerthiant ym mhapurau newydd y cyfnod yn cofnodi bod y fferm wedi ei gwerthu i John Parry, Glanrafon Ucha, Llanallgo; mae'n ymddangos na chwblhawyd y gwerthiant i John Parry, a bod Pant-y-Saer wedi cael ei phrynu gan Hugh Williams.
[32] Copi o'r ddogfen ym meddiant Llio Rhydderch, Marian-glas.
[33] *Yr Herald Cymraeg,* 28 Rhagfyr 1897; *North Wales Chronicle*, 25 Rhagfyr 1897.

Roedd Hugh Williams hefyd yn asiant i *Odams' Manures* – sef cwmni gwrtaith. Mae sôn amdano yn mynychu ciniawau blynyddol *Odams Manures* ym Mangor.[34]

**Dyddiau cynnar**

Yn ei deyrnged iddo, dywedai'r Parch. John Roberts bod Hugh Williams wedi cael ei addysg foreuol yn ysgol Frytanaidd Marian Glas.[35] Mae'n debyg y byddai Hugh a'i frodyr a chwiorydd wedi gorfod cerdded y tair filltir o Bantysaer i'r ysgol bob bore ac yn ôl gyda'r nos. Mae'n ddiddorol gweld bod y rhieni wedi eu gyrru i Marian Glas yn hytrach na'r Ysgol Genedlaethol (Eglwysig) yn Llanbedrgoch, ag oedd yn llawer nes i'r cartref; eto, mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu eu dymuniad i addysgu'r plant y tu allan i ddylanwad yr Eglwys Wladol.

Fe fyddai Hugh Williams wedi cael ei addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn yr ysgol, ac y mae'n debyg bod y dysgu wedi bod o safon isel – yn ei adroddiad ar ysgol Marianglas yn 1854, mae John Phillips yn disgrifio'r ysgol yn *'wan.'*[36] Fel y gwelwn, yr oedd Hugh Williams yn arethio ac yn ysgrifennu yn feistrolgar yn y Gymraeg, felly y mae'n debyg iddo dderbyn y rhan fwyaf o'i addysg o ansawdd o'r Ysgolion Sul, ag oedd yn gryf iawn yn y cylch.[37]

Roedd y capel yn ddylanwad mawr ar Hugh Williams o'r dechrau. Yn ôl John Roberts *'Teimlodd bethau grymus yn Niwygiad '59. Bu am beth amser y pryd hwnw, er yn burieuanc, heb fwyta na chysgu ond ychydig, gan bryder am ei gyflwr … Gorfoleddodd lawer am y Diwygiad hwnw … Nid oedd neb yn eglwys y Tabernacl a chymaint o dinc y Diwygiad i'w glywed yn ei weddiau, a byddai wrth ei fodd yn son am dano.'*[38] Fel y gwelwn, yr oedd elfen efengylaidd yng nghrefydd Hugh Williams drwy gydol ei oes, ac yr oedd yn cael ei ysbrydoli gan bregethwyr ac eraill gyda'r un rhinweddau.

Dywedai John Roberts *'Anhawdd ei gyfarfod a chael ymddiddan ag ef, heb i un o dri pheth ymwthio i sylw, crefydd, dirwest, neu wleidyddiaeth'* ac fe ddechreuwn gyda'r agweddau hyn.

**Crefydd**

Yr oedd Hugh Williams yn un o arweinyddion lleyg mwyaf amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Môn yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y llyfr '*Braslun o Hanes M. C. Môn (1880-1935),'*[39] ceir llu o gyfeiriadau ato a'i swyddogaethau. Dywedir amdano:

---

[34] *North Wales Chronicle*, 29 Tachwedd 1884, 6 Rhagfyr 1890, 3 Rhagfyr 1892.
[35] John Roberts, *Y Llusern,* Tachwedd 1905.
[36] *Reports of British Schools in North Wales by J. Phillips, Inspector,* Llyfrgell Genedlaethol Cymru MS 4256C.
[37] Gweler Emyr Roberts, op. cit..
[38] J. Roberts, op. cit..
[39] Hugh Owen (gol), *Braslun o Hanes M.C. Môn, 1880-1935,* (Lerpwl, 1937), 369.

‘ … efallai Hugh Williams, Pant y Saer, a ddaeth i fwyaf o amlygrwydd mewn cylchoedd crefyddol y tu allan i gylch gweithgarwch eglwys y Tabernacl. Dewiswyd ef yn flaenor yn 1877, ac am 27 mlynedd bu’n dra ymroddedig i waith y Deyrnas. Daeth yn ŵr amlwg yng Nghyfarfod Misol Môn, ac ymddiriedid yn ei farn a’i gyngor. Cofir amdano fel pwyllgorwr effro, siaradwr huawdl, gweddïwr mawr a Christion gloyw.’




*Capel y Tabernacl ar ddechrau’r ganrif*

Roedd Capel Tabernacl yn ei anterth ar ddiwedd y 1800au:

‘Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau weinidog, tri o bregethwyr, pedwar o flaenoriaid, dau gant a dau-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, pedwar cant a dau a deugain o wrandawyr, a thri chant a phedwar-ar-bymtheg ar hugain yn perthyn i’r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd £193.19.11½. Dyled y capel, £450.’[40]

Yn ôl *Cofnodion Cyfarfod Misol C.M. Môn*, pan gynhaliwyd y Cyfarfod Misol yn Tabernacl yn Hydref 1885:

‘Dangosai yr adroddiad fod yma lafur mawr gyda’r achos yn ei holl rannau, ac ymdrech i helaethu y terfynau, ac heblaw fod y Tabernacl yn gapel wedi ei adnewyddu yn ddiweddar, ac erbyn hyn i’w olygu ymhlith goreuon ein gwlad.’[41]

Mae *Hanes M. C. Môn* yn cyfeirio at Ddosbarth y Tabernacl (wyth o eglwysi, gan gynnwys y Tabernacl):

‘ … dengys y cofnodion [hyn] mor fyw fu eglwysi’r Dosbarth i anghenion crefyddol y cylch, ac mor effro fuont i bob symudiad crefyddol yn y tir … Heblaw gwasanaeth amhrisiadwy gweinidogion y cylch ar hyd y blynyddoedd, caed cynorthwy sylweddol yn y gwaith gan nifer o leygwyr ymroddedig, ac yn eu plith, Hugh Williams, Pant y Saer, a fu’n ysgrifennydd y Dosbarth o 1885 hyd 1904.’[42]

Mae dyddiadur 1885 Hugh Williams yn cofnodi ei waith yn trefnu pregethwyr ar gyfer y Tabernacl, ac yn cynnal casgliadau a thaliadau. Dywedir am y pregethwyr a ddaeth i’r capel yn ystod y cyfnod:

---

[40] Ibid., 338-9.
[41] Archifau Môn, Hydref 1885.
[42] H. Owen, op. cit., 354-55.

> 'Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf ni allai yr un pregethwr ystyried ei hun yn wir gennad heb iddo gael y fraint o bregethu yn y Tabernacl.'[43]

Fe wasanaethwyd yng Nghapel y Tabernacl gan sawl gweinidog dros gyfnod Hugh Williams; y ddau mwyaf adnabyddus, a gafodd ddylanwad mawr arno, oedd:

> **John Richard Hughes** (1828–1893) – dywedir amdano: ' … yn 1882 symudodd yn ol i Frynteg, a bu'n weinidog di dâl yn y Tabernacl hyd ddiwedd ei oes. Bu'n pregethu am dros 40 mlynedd, ac fe'i cyfrifid yn bregethwr poblogaidd iawn … Credai'n gryf mewn cyrddau diwygiadol, ac ai'n fynych drwy dde a gogledd i'w cynnal … Yr oedd ei ffydd mewn gweddi'n ddiderfyn; ni phryderai am ddim. Ni frathwyd ei fron gan genfigen, ac nid aeth malais i'w galon erioed. Yr oedd yn ddirwestwr nad oedd ym Môn mo'i selocach.'[44]
>
> 'Adwaenid ef fel pregethwr nerthol drwy holl barthau Cymru, ac er na alwyd mohono erioed yn fugail i'r Tabernacl, eto i gyd, ef a ymgeleddai braidd Duw yn y fro hon am flynyddoedd hirfaith, a sonnir hyd heddiw gan rai o'r aelodau hynaf am arddeliad rhyfedd oedd ar seiadau'r Tabernacl dan ei arweniad ef.'[45]

Mae'n amlwg bod Hugh Williams yn agos iawn at John Richard Hughes; fel rhan o'i swydd yn ysgrifenydd Capel Tabernacl, hysbysodd ei farwolaeth yn 1893 a thalodd teyrnged iddo yn ei gynhebrwng:

> '*Claddedigaeth y Parch John Richard Hughes, Môn* – Daeth tyrfa fawr yn nghyd i'w hebrwng i 'dy ei hir gartref,' ac amlwg ydoedd fod teimladau dwysion yn llanw pob mynwes …. Mr Hugh Williams, Pant Saer, un o flaenoriaid y Tabernacl, a ddywedai i Mr Hughes fod gyda hwy yn y Tabernacl am 32 mlynedd, ag eithrio yr ychydig flynyddau y bu yn Nghaergybi a Ty Mawr. Yr oedd yn ddyn unplyg iawn. Y rhai oedd yn ei adnabod oreu oedd yn ei garu fwyaf. 'Roedd y gymdogaeth yn fwy dyledus iddo ef nag i neb am yr addysg dda dderbynia'r plant yn yr ysgol ddyddiol, ac enwodd amryw o wyr nid anenwog y gellid gweled yn eglur arnynt ol ei ddylanwad …'[46]

Gwnaeth hefyd goffhad iddo yng Ngymdeithasfa Brynsiencyn.[47] Ysgrifenodd Hugh Williams deyrnged llawn i John Richard Hughes yn *Y Goleuad* – meddai, wrth sôn am gyfarfodydd *o* 'seiat mewn seiat' a'u arweinwyd gan John Richard Hughes am flynyddoedd yn y Tabernacl: *'Yr ydym yn cofio y diwygiad crefyddol 1859 yn dda, a thrwy ras Duw profasom gryn lawer o'i nerth; ond gallwn dystio heddyw ein bod wedi teimlo rhywbeth lawn mor danbaid yn y*

---

[43] D. Jones a G. Thomas, op.cit., 71.
[44] R. Hughes, *Enwogion Môn, 1850-1912* (Dolgellau, 1913), 63.
[45] H. Owen, op. cit., 369; hefyd J. Pritchard, op. cit, 359.
[46] *Y Genedl Gymreig,* 12 Rhagfyr 1893; *Baner ac Amserau Cymru*, 13 Rhagfyr 1893.
[47] *Y Goleuad*, 4 Mai 1894.

*cyfarfod bychan o dan sylw … Y mae y diwygwyr yn myned yn brinion – dynion yn llosgi gan awydd i achub eneidiau.'*[48]

Fe barhaodd y cysylltiad a'r teulu ar ôl marwolaeth John Richard Hughes, a dewiswyd Hugh Williams i gynrychioli Methodistiaid Calfinaidd Môn yng nghyfarfod sefydlu Howell Harris Hughes, sef mab John Richard Hughes, ym Mhenmachno yn 1900.[49] Mynychodd Hugh Williams briodas Howell H. Hughes[50] a gyrrodd anrheg briodas at ei chwaer Jane Myfanwy Hughes.[51]

**John Roberts** (1856-1911) – a'i fagwyd yn 'Y Garnedd' yn Llanfairmathafarneithaf, a'i dygwyd i fyny yng Nghapel Tabernacl, lle yr oedd ei daid yn flaenor. Fe'i ordeinwyd yn 1894 a bugeiliodd yno hyd ei farwolaeth yn 1911. Cafodd John Roberts ei ddylanwadu gan henaduriaid y capel:

> 'Cymerai y diweddar Barch J.R Hughes – gwr craff – gwr mawr i Dduw, ddyddordeb angerddol ynddo fel llawer un o'i flaen ace ar ei ol. Felly hefyd y diweddar Hugh Williams a John Thomas ac eraill.'[52]

Yn *Enwogion Môn* dywedir amdano:


> 'Yr oedd yn bregethwr cymeradwy, yn ysgrythyrwr cadarn, ac yn weddiwr mawr. Fe gofir yn hir am ei weddiau dihewydus. Fe'i bendithiwyd a chorff cryf a phrydferth, ac a llais ystwyth a melodaidd, a meddai ddynoliaeth dda. Yr oedd yn ŵr rhadlon a siriol, ac yr oedd cryn dipyn o *humour* ynddo. Fe'i mawr hoffid gan bawb ….. Fe'i claddwyd ym mynwent capel y Tabernacl yn ymyl ei hen gyfaill cu Hugh Williams, Pantysaer, yntau'n haeddu crybwyll o honom ei enw yma. Fe bery ei ysbryd a'i arogl hyd yr ardal yn hir.'[53]

Roedd Hugh Williams yn ddiacon yn Y Tabernacl am saith mlynedd ar hugain, ac fe wasanaethodd mewn llawer o ffyrdd[54] – yn drefnydd y pregethwyr, ysgrifenydd yr adeiladau, ymddiriedolwr, ysgrifenydd y Cyfarfod Llenyddol a Cherddorol, ac yn gadeirydd ar gyfarfodydd achlysurol.[55]

---

[48] *Y Goleuad,* 11 Mai 1894 13-14, a 25 Mai 1894 8-9.
[49] *Y Goleuad*, 21 Tachwedd 1900, 6.
[50] *The Welsh Coast Pioneer*, 7 Tachwedd 1902.
[51] *Baner ac Amserau Cymru,* 26 Gorffennaf 1902.
[52] *Y Wyntyll,* 28 Medi 1911.
[53] ….. op. cit., 164-65.
[54] Mae'n ymddangos bod Hugh Williams wedi ysgrifennu am hanes cychwyniad a chynydd Eglwys y Tabernacl – y mae Roland Lloyd, ysgrifenydd Capel yr Annibynwyr yn y Benllech, yn cyfeirio ato, ond yn anffodus nid yw'r ysgrif wedi goroesi. Archifau Prifysgol Bangor, BMSS BEN 5430.

[55] Er enghraifft, *Y Genedl Gymreig*, 8 Mehefin 1887; *Y Genedl Gymreig*, 18 Ebrill 1888; *Y Genedl Gymreig*, 22 Hydref 1890; *Y Werin*, 8 Chwefror 1896; *Seren Cymru*, 8 Mawrth 1895.


CYFARFOD CYSTADLEUOL YSGOLION SABBOTHOL Y TABERNACL A'R BENLLECH, MON, a gynhelir ddydd Mawrth, Gorphenaf 31ain, 1888.

TESTYNAU AGORED I'R BYD.

1. Traethawd, "Y Benllech fel ymdrochle: Ei fanteision a'i anfanteision; yn nghyda rhagolygon y gymydogaeth fel cyrchfa dyeithriaid." Gwobr, 15s.
2. Chwe' Pheoill (unrhyw fesur), "Yr Enllibiwr." Gwobr, 6s.
3. Englyn, "Maen Melin." Gwobr, 2s 6c.
4. I'r Cor, heb fod dan 30 mewn nifer, a gano oreu yr Anthem "Yr Arglwydd yw fy Mugail" (Dr Joseph Parry, Pencerdd America). Gwobr, 3p 3s (os na bydd cystadleuaeth, 2p 2s).
5. I'r Cor, heb fod dan 10 mewn nifer, a gano oreu "Y Seren Unig" (Isalaw). Lleisiau cymysg. Gwobr, 16s.
6. I'r Parti, heb fod dan 8 mewn nifer, a gano oreu y Rhangan "Hiraeth" (J. W. Parson Price). Cyflyngedig i Feibion. Gwobr, 12s.
7. Deuawd "Ac yr oedd yn y wlad hono" (H. Davies, Pencerdd Maelor). Gwobr, 5s.
8. Unawd, "Yr Eos" (Dr Joseph Parry). Gwobr, 3s.
9. Am Ysgrifenu Tôn a genir ar y pryd. Gwobr, 1s.

Rhestr gyflawn o'r Testynau, &c., i'w cael ond anfon lo i un o'r Ysgrifenyddion,

HUGH WILLIAMS, Pant y Saer,
JOHN WILLIMS, Board School,
Ty'n y Gongl, Anglesey.

448

*Cyfarfod Cystadleuol Ysgolion Sul*

Roedd Hugh Williams yn un o'r ymddiriedolwyr pan sefydlwyd ysgoldy yn y Benllech ar ddechrau'r 1880au.[56] Fe chwaraeodd ran amlwg wedyn yn yr ymgyrch i godi capel yn y pentref trwy wasanaethu fel Ysgrifenydd Adeiladau.[57] Pan gorfforwyd capel y Benllech yn Haf 1900, yr oedd Hugh Williams yno yn cynrychioli y Cyfarfod Misol.[58]

Mae'n amlwg bod mudiad yr Ysgolion Sul yn agos at ei galon, ac yr oedd yn cymeryd rhan amlwg yn y gweithgareddau yn y capel, ac yn Nosbarth Dwyrain yr Ysgolion Sul ym Môn. Mae ei ddyddiadur o 1885 yn cofnodi *'Yn Pont Menai yn nghyfarfod y canmlwyddiant. Cyfarfod lwyddianus'*, ac y mae adroddiad o'r achlysur yn *Y Genedl Gymreig*:

> 'Darfu i Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfinaidd, Dosbarth y Dwyrain, ddathlu y can'mlwyddiant yn [Porthaethwy]. Cychwynodd yr orymdaith, yr hon oedd yn rhifo oddeutu pymtheg cant, oddiwrth gapel yr enwad am hanner awr wedi deuddeg y prydnawn, pryd yr aethpwyd drwy prif heolydd y lle. Cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol:- Yn yr awyr agored (y cyfarfod cyntaf am 1 o'r gloch) – Llywydd: Mr Hugh Williams, Tabernacl …'[59]

Ymysg ei swyddogaethau gyda'r Ysgolion Sul oedd trefnu'r cyfarfodydd cystadleuol a holi'r plant mewn Cymanfaoedd (Y Clorianydd, 5 Mehefin, 1902).[60]

> '*Tabernacl, Môn – Gorymdeithio a Gwledd* – '… ymgynullodd aelodau Ysgol Sabbothol at yr addoldy a ffurfiwyd yn orymdaith drefnus i fyned oddiwrth y capel tua glan môr y Benllech … Ar y ffordd rhwng Ty'nygongl a glan y môr cyfarfyddodd cangen Ysgol Sul y Benllech a'r Tabernacl. Gofalodd y fam ysgol, yr hon sydd drugarog a chyfoethog, am wahodd y ferch ysgol i fwynhau pleser, a chyd-lawenhau gyda'u gilydd … Difyrodd y plant eu hunain ar y traeth a'r ponciau mewn chwareuon diniwed … Wedi hyby ail-ffurfiwyd yn orymdaith, ond nid mor drefnus a'r tro cyntaf, i fyned tuag ystafell eang a chyfleus gysylltiedig â chapel y Tabernacl, wedi ei thaenu yn barod i gael gwledd o de a bara brith … Am saith o'r gloch cafwyd cyfarfod difyrus ac adloniadol yn y capel … Cafwyd anerchiadau ar wahanol faterion cysylltiedig â llafur ac ymroddiad gyda'r Ysgol Sul gan … Mr Hugh Williams … Aeth pawb adref

---

[56] *Y Goleuad*, 20 Awst 1881.
[57] *North Wales Chronicle*, 21 Ionawr 1899; *Y Genedl Gymreig*, 24 Ionawr 1899.
[58] H. Owen, op. cit., 358.
[59] *Y Genedl Gymreig*, 20 Mehefin 1885.
[60] *Y Clorianydd*, 5 Mehefin 1902; Y *Genedl Gymreig*, 4 Ebrill 1888.

> wedi cael gwledd ddanteithiol a rhagorol, wedi mwynhau eu hunain mewn llawenydd yn eu cyrph a'u heneidiau.'[61]

Roedd yn gefnogol iawn i Obeithlu'r Tabernacl, a oedd yn cyfuno ei ymroddiad i bobl ifanc ac i'r mudiad ddirwestol.[62] Roedd hefyd yn amlwg yn Undeb Sirol yr Ysgol Sul.[63]

Fel y nodwyd eisioes, yr oedd Hugh Williams yn aelod brwdfrydig o Gyfarfod Misol Môn, yn Ysgrifenydd Pwyllgor y Lleoedd Gweiniaid, ac yn aelod llu o is-bwyllgorau'r Cyfarfod gan gynnwys: yr Ysgol Sabbothol; Arianol a Chyffredinol; Cyhoeddiadau Dieithriaid a Threfniadau Cymanfa Flynyddol y Sir; yr Ysgolion Newyddion; ac Adeiladu.[64] Roedd yn Lywydd y Blaenoriaid yn 1891. Yn *Hanes M. C. Môn*, cyfeirir ato fel un o 'golofnau' yr achos:

> 'Ym mlynyddoedd cyntaf y cyfnod hwn ceid bod y ddwy elfen yn y Cyfarfod Misol – y leygol a'r bregethwrol – yn mantoli yn llawer gwell nag y gwnant heddiw. Ceid blaenoriaid amlwg ymhlith arweinwyr mwyaf pybyr y cyfarfod … tra fel trefnydd anodd oedd cael neb a lanwai le y ffyddlon Hugh Williams, Pant-y-Saer. Mynych y clywid y [tri] wŷr hyn yn cyfrannu'n effeithiol i lawer trafodaeth ar lawr y Cyfarfod Misol.'[65]


Yr oedd y Cyfarfod Misol (C.M.) yn gael ei gynnal dros ddau ddiwrnod mewn capeli ym mhob rhan o Sir Fôn; ac yr oedd Hugh Williams yn aelod selog o 1888 hyd ei farwolaeth. Mae'n amlwg o'r cofnodion a'r adroddiadau niferus amdano yn y papurau lleol ei fod yn cyfrannu'n helaeth at yr achos ac yn ymgymeryd â wahanol dyledswyddau ar ran y C.M.. Ymysg y swyddogaethau a gofynwyd iddo wneud oedd: cadeirio'r C.M. yn achlysurol; agor y drafodaeth yn nghyfarfod y blaenoriaid; derbyn llais eglwysi yn eu dewisiad o flaenoriaid; archwilio llyfrau yr eglwys Gymreig yn Nulyn; trefnu cyhoeddiadau gweinidog newydd yn ystod ei flwyddyn brawf; aelod o swyddogion sirol Trysorfa y Gweinidogion; rhan o bwyllgor i ystyried rheolau dewis gweinidogion ar eglwysi; un o ymddiriedolwyr capel newydd Cefniwrch a chapel Brynyrefail; aelod o'r pwyllgor yn ystyried addysg elfenol; a golygu ymgeiswyr am y weiniodogaeth.

Dewisiwyd Hugh Williams sawl gwaith i gynrychioli Cyfarfod Misol Môn yng Nghymdeithasfa'r Gogledd a'r Gymanfa Gyffredinol – nodir ei bresenoldeb yng Nghymdeithasfa Bangor (1889), Caernarfon (1893 a 1899), Pwllheli (1900), Croesoswallt a Bae Colwyn (1901), Beaumaris a Llanrwst (1904), ac yn Cymanfaoedd Cyffredinol Rhyl (1897) a Lerpwl (1902). Yr oedd felly yn teithio hyd a lled y wlad ar ran y Cyfarfod Misol, yn ogystal a'i waith o fewn y Sir, ac yn cyfarfod pobl tu hwnt i'w fro ei hun.

---

[61] *Y Genedl Gymreig*,  … Mehefin 1889.
[62] *Y Clorianydd*, 1 Mai 1902; *Y Clorianydd*, 26 Mawrth 1903.
[63] H. Owen, op. cit., 70.
[64] Archifau Môn, WDAC/1232.
[65] H. Owen, op. cit, 5-6. ?????

Mewn erthygl ar *'Fy ymweliad a Bro Goronwy'*, dywedai *"Un fu yn y fro yn byw"*: '… Mewn cae bychan gerllaw y ffordd, yn brysur yn hau, gwelais un o flaenoriaid blaenaf y M.C. yn Môn, sef Mr Hugh Williams, Pant y Saer, ac edrycha yn dda iawn. Y tro olaf i mi ei weled ydoedd yn y gymdeithasfa yn Abergele. Cawsom ymgom hir gydag ef am yr amser a fu …'[66]


TYSTEB MR. HUGH WILLIAMS.

Blaenor yn y Tabernacl y cyfeiriwyd ato ydyw y gŵr hwn; ac y mae cylch y cyfarfod ysgolion wedi dechreu symmud i w dystebu am ei wasanaeth mawr, a i ymroddiad diflino gyda'r Ysgol Sul. Yr wyf yn gobeithio na chyfyngir mo honi yn unig i gylch yr ysgol, o blegid nid oes odid bwyllgor yn Môn gydag unrhyw fater crefyddol neu gymdeithasol na bydd y brawd hwn yn cymmeryd rhan flaenllaw ynddo. Y mae yn aelod o bwyllgor Rhyddfrydig, dirwestol, cymmanfa ganu, Bwrdd Ysgol, a llawer eraill y buasai yn hawdd i mi eu henwi. Y mae nid yn unig, hefyd, yn aelod ar lyfr, ond yn rhan hanfodol o honynt. Yn wir, y mae yn ammheus a ddechreuid ambell i gyfarfod, yn enwedig cyfarfod misol, heb fod Mr. Hugh Williams, Pant y saer, yn y golwg; ond wedi i'r frawdoliaeth ei weled, bydd tòn o rhyw ollyngdod a boddlonrwydd yn ymdaenu drosti, a bydd pawb yn berffaith dawel i ddechreu. Pa fodd bynag, gallwn yn ddibetrus ddyweyd am dano:—'Y mae efe yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddo.' A dymunwn lwyddiant y symmudiad i frawd sydd yn gwir deilyngu cydnabyddiaeth.

*Tysteb Hugh Williams, 1901*

Yn 1901 y casglwyd tysteb iddo am ei waith gyda Dosbarth Dwyrain yr Ysgol Sulion a'i gyfraniadau eraill i waith y Methodistiaid Calfinaidd.[67]

Cafodd ei anrhydeddu mewn gwasanaeth ym Mhorthaethwy, a chyflwynwyd bathodyn aur iddo yng nghyd a siec a 'gynrychiolai swm sylweddol o aur.'[68]

Mae'r Parch William Rowlands (1879-1951), Caulfield, Melbourne, yn sôn am ei fagwraeth yn Nhy'nygongl mewn cyfres o erthyglau yn *Y Goleuad:*[69]

'Deuai nifer o ferched ieuanc yr ardal at fym mam i Mount Pleasant i ddysgy gwnïo. Un tro, â minnau efo nhw yn yr ystafell ar yr ail lawr, dyna Miss Anne Williams yn deud: "Drychwch William, dacw Huw Wilias yn y cae: Ewch ato fo i dynnu sgwrs." A dyna finnau, yn llanc mawr pedair oed, ato fo i gae Pant y Saer, lle'r oedd Mr Hugh Williams yn agor ffôs: "Huw Wilias," meddwn i, "beth oedd y plant bach yn ei weiddi ar Iesu Grist, 'hosanna i Fab Dafydd' ynte 'Gwau sana i Fab Dafydd'? Dyna wên ar wyneb Mr Williams, ac yntau'n gofyn gan bwyso ar y rhaw: "Y gennod yna ddeudodd wrthych am ofyn hynyna, ynte, William?"

'… yr oedd ein sedd ninnau'n [yng nghapel Tabernacl] union uwchben y cloc, ac ar ymyl y galeri – lle cyfleus i minnau fedru efelychu ystumiau ambell bregethwr. Mr J.P. Williams, Tudor Villa, ydoedd y pen blaenor, a Mr Hugh Williams, Pant y Saer, yn lled agos ato …'[70]

---

[66] *Y Clorianydd*, 21 Mai 1903.

[67] *Baner ac Amserau Cymru*, 15 Mai 1901.

[68] *Y Clorianydd*, 8 Awst 1901.

[69] Roedd y Parch William Rowlands yn frawd i'r genhades enwog Dr Helen Rowlands, *Helen o Fôn*, ac hefyd yn frawd i'r Canon T.J. Rowlands, Llandudno. Roeddynt i gyd yn gefndryd i fy nhaid Henry Richard Rowlands – eu mam Martha yn chwaer i dad fy nhaid, Henry Rowlands.

[70] *Y Goleuad*, Rhagfyr 1950.

Ceir sôn am Hugh Williams mewn baled ddoniol '*Yr Adeilad Newydd cysylltiedig â Chapel Y Tabernacl*' gan '*General Homaroff*':

> '… Digwyddiad mawr y flwyddyn hon,
>
> Fel gŵyr pob llan ac ardal,
>
> Yw fod y Tabernacliad dewr,
>
> Yn agor lloft y Stabal.
>
> Fe fydd Hugh Williams Pantysaer,
>
> Yn ddigri anarferol;
>
> A chadw cyfrif manwl wna,
>
> John Williams Tynygongl …'[71]

**Dirwest**

Yn y cyfnod hwn, roedd yr enwebiadau Anghydffurfiol a chysylltiad cryf gyda'r mudiad dirwestol, ac yr oedd Hugh Williams yn frwd dros yr achos:

> '*Cymanfa Methodistiaid Môn, Caergybi* …. Mr Hugh Williams, Pantysaer, yr hwn a alwodd sylw at y ffaith fod Cymanfa Gwynedd yn cynyg pum' punt mewn gwobrwyon i'r rhai o un-ar-bymtheg i un-ar-hugain oed a safasant arholiad yn y Llawlyfr Dirwestol …'[72]

Roedd yn aelod o Gymdeithas Ddirwestol Môn er pan oedd yn ddyn ifanc, a pharhaodd ei ymroddiad am weddill ei fywyd. Yr oedd yn ysgrifenydd i Bwyllgor Dosbarth y Tabernacl, aelod o Bwyllgor Gweithiol y Sir (*'ni chollodd ond dau bwyllgor yn ystod 18 mlynedd o amser'*[73]), ac yn llywydd i'r Gymdeithas rhwng 1901 a 1903.[74]

> '*Cymanfa Ddirwestol Môn* …. Cynygiwyd penderfyniad gan Mr Hugh Williams, Pantysaer, yn taer anog yr eglwysi a'r Ysgolion Sabbothol i fod yn ffyddlon a selog gyda dirwest, a manteisio ar bob cyfleusdra i roddi eu hwyneb yn erbyn yr arferiad gwrthun o fyned i dafarndai.'[75]
>
> '*Cymmanfa Ddirwestol Môn, Porthaethwy* …. Sefydlwyd y Gymdeithas chwe blynedd yn ôl … ugain o dafarnau wedi cael attal eu trwyddedau … nad oes un drwydded newydd wedi ei rhoddi ers dros chwe blynedd. Cafwyd ymdriniaeth helaeth ar y

---

[71] …..

[72] *Y Genedl Gymreig*, 3 Gorffennaf 1894.

[73] J. Roberts, op. cit., 167.

[74] *Carnrvon and Denbigh Herald*, 27 Chwefror 1903.

[75] *Y Genedl Gymreig*, 20 Awst 1890.

> cwestiwn, 'A oedd cyssylltiad y gymmanfa â Chymmanfa Gwynedd i barhau?' Cymmerwyd rhan yn y drafodaeth gan …. H.Williams, Pantysaer …. Pasiwyd fod y cyssylltiad i barhau.'[76]

> '*Cymdeithas Ddirwestol Môn.* Ni does odid Gymdeithas Ddirwestol yn Nghymru wedi gweithio yn fwy egnïol o'i chychwyniad na'r gymdeithas uchod; ac y mae yn llawenydd deal fod bywyd, yni, a gweithgarwch yn parhau i'w nodweddu … Wedi dechreu y cyfarfod trwy weddi gan Mr H. Williams, Tabernacl … Rhoddodd Mr H. Williams adroddiad yn nosbarth y Tabernacl … Aelodau yr is-bwyllgor arholiad direwestol … H. Williams … Dewisiwyd … Mr H. Williams, Pant y Saer i fod yn llywyddion y gymmanfa …'[77]

Dewisiwyd Hugh Williams i gynrychioli Cymdeithas Ddirwestol Môn yn Nghymanfa Gwynedd ym Mlaenau Ffestiniog, ac adroddodd yn ôl ar ei ymweliad.[78]

Rhan o waith y Gymdeithas Ddirwestol oedd gwrthwynebu rhoi trwyddedau i dafarnau, ac fe wrthwynebodd Hugh Williams cais i drosglwyddo trwydded y California Inn, Rhosfawr, i fab y cyn-drwyddedwr, ond caniatawyd y cais.[79]

Yn Ionawr 1902 pasiwyd cynnig yng nghyfarfod Cymdeithas Ddadleuol Ty'nygongl i ffurfio pwyllgor i ystyried adeiladu *'tŷ dirwestol neu "village hall" yn yr lle i gynwys darllenfa gyhoeddus a "lecture-room"* ac etholwyd Hugh Williams i'r y pwyllgor.[80] Cyflwynwyd adroddiad y pwyllgor yn y cyfarfod nesaf gan y Parch. Tywi Jones a Hugh Williams, ac fe hysbyswyd am yr angen i gefnogi'r fenter yn ariannol:

> '*Neuadd Goffadwriaethol Goronwy Owen* - Syr, Fel y mae yn hysbys i lawer erbyn hyn y mae symudiad ar droed yn ardal Ty'nygongl i adeiladu y Neuadd uchod. Cyfarfu y pwyllgor nos Fawrth, Ebrill 29ain, ac yn mhlith pethau eraill pasiwyd: "ein bod yn awdurdodi yr ysgrifenyddion i dynu allan gylchlythyr, yn Gymraeg a Saesneg, i egluro y mater ac i ddeisyf am gynorthwy oddiwrth gyfeillion y mudiad." Brodor o'r ardal hon oedd Goronwy, a haedda ei goffadwriaeth wneuthur o honom hyn iddo. HUGH WILLIAMS, Pantsaer, Ysgrifenydd Arianol. J. TYWI JONES, Ysgrifenydd y Pwyllgor.'[81]

Trafodwyd yr angen i gael 'darllenfa' neu rhywbeth tebyg ar gyfer ieuenctid y fro mewn llythyrau i *Y Clorianydd* y flwyddyn ddilynol. Ysgrifenodd *'Ap Mathafarn'* (Hugh Williams) i gwyno am ymddygied rhai o bobl ifanc yr ardal:

> 'Pe ond y peth a ddigwyddodd ym Mro dawel Goronwy yr wythnos diweddaf: pan oeddynt yn dyfod o'r moddion canu. Gwaith rhai "ieuengtyd" mewn oed oedd

---

[76] *Baner ac Amserau Cymru*, 12 Hydref 1895.
[77] *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Chwefror 1900.
[78] *Baner ac Amserau Cymru*, 4 Hydref 1899; *Y Tyst*, 11 Hydref 1899.
[79] *Gwalia*, 23 Tachwedd 1897.
[80] *Y Clorianydd*, 23 Ionawr 1902.
[81] *Y Clorianydd*, 8 Mai 1902.

lluchio baw a cheryg hefyd ar ol rhai oedd yn dyfod allan … Y mae cwyn cyffredinol yn y Fro na chaiff neb gerdded y ffordd heb i'r rhai hyn aflonyddu arnynt.'[82]

Roedd Hugh Williams yn rhoi y bai ar y rhieni – *'beth sydd i'w ddisgwyl o nyth aderyn aflan ond aflendid?'*. Ond mewn ymateb yn y rhifun ddilynnol, dywedodd y gohebydd *'Maneo'* mai prinder cyfleusderau i'r bobl ifanc fynd iddynt gyda'r nos oedd wrth wraidd y broblem – *'Ceid darllenfa fel hyn yn lled ddi-boen yn lle bod am flynyddoedd yn casglu ac yn pwyso ar yr ardalwayr am gasgliad i godi neuadd goffa i Goronwy, a hono fawr well na chastell mewn awyr.'[83]*


Ni wireddwyd yr amcan i godi darllenfa yn ystod amser Hugh Williams - adeiladwyd Neuadd y Pentref yn y 1920au, a hynny yn bennaf er mwyn coffau'r milwyr a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Cymdeithas y Brodyr Annibynnol**

Yn ei dystiolaeth i'r Ddirprwyaeth Tir, y mae Hugh Williams yn cyfeirio at gymdeithasau cleifion yn ei ardal, ac yr oedd ef ei hun yn ymddiriedolwr ac yn Lywydd 'Cymdeithas y Brodyr Annibynnol, Marian Glas'. Roedd y Gymdeithas yn gweithio fel elusen trwy dderbyn rhoddion aelodaeth, a dosbarthu taliadau lles i dlodion a chleifion a chyfrannu tuag at gostau angladdau.

Rhan o'i waith fel Llywydd oedd galw'r cyfarfod blynyddol:

> 'Disgwylir i holl aelodau y gymdeithas hon gyfarfod yn Ysgoldy Marian Glas ar foreu y Llungwyn nesaf, am 10 o'r gloch, pryd yr agorir y llyfrau i dderbyn arian, &c. Hefyd y dymunir ar i bob aelod sydd ganndo ffon a sias ddod a hwy i'w ganlyn yno, gan y bwriedir cael gorymdaith. HUGH WILLIAMS, Pant y Saer.'[84]



Cymdeithas yr "Annibynol Frodyr,"

Yr hon a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1841,

AC A GYNHELIR YN

MARIAN GLAS, MÔN.

"PARHAED BRAWDGARWCH."—HEB. XIII. 1.

MANTOL-LEN

Am y Flwyddyn yn diweddu Mai 21ain, 1893.

SWYDDOGION Y GYMDEITHAS.

| Ymddiriedolwyr. | |
|---|---|
| Mr. JOHN P. WILLIAMS, Ty'n y gongl. | Mr. HUGH WILLIAMS, Pant y Saer, Llywydd. |
| " JOHN THOMAS, Bwlch. | " ROBT. WILLIAMS, Glyttir, Trysorydd. |
| " THOMAS HUGHES, Cocyn. | " WILLIAM ROBERTS, Bryn Eugrad, Ysgrifenydd. |
| | " WILLIAM JONES, Ty Newydd, Goruchwyliwr. |

PWYLLGOR.

| | |
|---|---|
| Mr. Rd. WILLIAMS, Ty Newydd. | Mr. THOS. GRIFFITHS, Garnfa. |
| " J. HUGHES, Dafarn goch. | " JOSEPH PARRY, Pant y Gaseg. |
| " H. JONES, Cefndu mawr. | Capt. D. WILLIAMS, Fronheulog. |
| " W. HUGHES, Mynachlog. | Mr. W. ROBERTS, Ty'n y lon. |
| " THOS. WILLIAMS, Brynhafod. | " THOS. HUGHES, Cocyn. |
| " Rd. MATHEWS, Tan y bonc. | " THOS. JONES, Tan y bryn. |

Gwerth y Gymdeithas Mai, 1892 .... £776 2s. 6½c.

NIXON A JARVIS, ARGRAFFWYR A LLYFRWERTHWYR, HIGH ST., LLANGEFNI, A BANK PLACE, BANGOR.

*Mantolen Cymdeithas yr 'Annibynol Frodyr'*

[82] *Y Clorianydd*, 5 Tachwedd 1903.
[83] *Y Clorianydd*, 12 Tachwedd 1903.
[84] *Y Genedl Gymreig*, 13 Mai 1891.

Mae mantolen y Gymdeithas am y flwyddyn 1892-93 yn dangos bod £776 2s. 6½c. yn y banc – yr oedd y Gymdeithas yn un o'r rhai fwyaf o'i fath yn y Sir.[85]

**Gwleidyddiaeth**

Roedd Hugh Williams yn aelod blaengar o'r Blaid Ryddfrydol; mae ei ddyddiadur yn ei gofnodi yn *'canvasio i Mr [Richard] Davies*' yn etholiad cyffredinol 1885, ac yn ddiweddarach yn y mis *'Yn Llangefni yn disgwyl am ganlyniad yr etholiad. 950 o fwyafrif i Mr Davies'.*

Roedd yn aelod o Gymdeithas Ryddfrydol Môn ers pan ad-drefnwyd y Gymdeithas ar ddechrau'r 1880au:[86]

> *'Anglesey Liberal Association* – On Tuesday last the Liberal Hundred, being the selected delegates of the recently formed Anglesey Liberal Association, were invited by Captain Verney, R.N., and Mrs Verney, with other Liberal friends from the neighbouring county to a banquet at Rhianva, their exceedingly pretty seat on the Menai Straits … The districts were represented by the following gentlemen … Hugh Williams, Pant-y-saer …'[87]

Cafodd Hugh Williams ei ethol yn Lywydd y Gymdeithas yn 1889;[88] yr oedd hefyd yn is-lywydd ac yn aelod o'r Pwyllgor Cyffredinol. Yn ei draethawd am y cyfnod, dywedai Eryl Wyn Rowlands:

> 'Nid oedd y pum mlynedd o 1886-92 wedi bod yn flynyddoedd esmwyth i Ryddfrydwyr a Rhyddfrydiaeth ym Môn. Fe gafwyd hollt go sylweddol o fewn ei rhengoedd wedi ymddiswyddiad gorfodol Richard Davies ym 1886 a ffurfiwyd Cymdeithas Sirol o Undebwyr Rhyddfrydol.'[89]

Serch hynny, fe gymerodd Hugh Williams ran blaenllaw yng nghyfarfodydd y Gymdeithas Sirol ac y mae nifer o gyfeiriadau yn y wasg am ei gyfraniad ar faterion y dydd:

> '[Cynygiwyd y penderfyniad] 'Fod gofal yn cael ei arfer na bydd neb ag unrhyw amheuaeth yn bodoli o barth i gywirdeb a dilysrwydd ei Ryddfrydiaeth yn cael ei

---

[85] Archifau Môn, WDAC/52.


[86] Er nad oes cofnodion, mae'n debyg bod Hugh Williams yn un o gynrychiolwyr cangen Marianglas ar y Gymdeithas Sirol. Yn 1887 dygwyd achos llys gan William Thomas, cyn ysgrifenydd dosbarth Marianglas, yn erbyn Hugh Williams am ddyled yr honwyd yr oedd yn daladwy iddo. Dyfarnwyd dros y diffynydd (*Y Genedl Gymreig*, 20 Gorffenaf 1887).

[87] *North Wales Express*, 2 June 1882.

[88] *Y Genedl Gymreig*, 5 Mehefin 1900.

[89] Eryl Wyn Rowlands, Agweddau Gweleidyddol ym Môn, 1885-95, *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn,* 1983, 104.

osod mewn unrhyw swydd na safle o bwys yn y blaid' … ategwyd gan Mr H. Williams, Pantysaer.'[90]


**Anglesey Liberal Association.**

CURRENT TOPICS.

The annual meeting of the above Association was held on Friday at Llangefni, Mr Hugh Williams (the retiring president) presiding at the commencement of the proceedings.

The usual reports were submitted and adopted, and the honorary treasurer (Mr Samuel Hughes, J.P.) was warmly thanked for his valuable services. The Rev E. H. Jones, Holyhead, was unanimously elected president for the ensuing year, and Messrs W. D. Williams, J. R. Hughes, W. H. Jones, H. C. Parry, and the Revs J. Hughes and T. Evans were elected vice-presidents. The treasurer and secretary were re-elected, and the various committees were appointed. The following resolutions were unanimously passed:—

The War.—Proposed by Mr Samuel Hughes, J.P., seconded by Mr J. Lewis, J.P., and resolved—'That they trusted that all sections of Liberals would unite together to obtain such a settlement of the dispute in South Africa as would be conducive to the welfare of the country and to permanent peace.

The Roman Catholic University.—Proposed by Mr D. Rees, J.P., seconded by

*Cymdeithas Ryddfrydol Môn*

'Cafwyd sylwadau ar waith yr Eglwyswyr yn myned oddiamgylch gyda deisebau yn erbyn y Mesur Ataliol Cymreig (Welsh Suspensory Bill), a cheid fod pob ymgais yn cael ei harfer er cael gan rai arwyddo y deisebau, ac fod enwau plant o ddeg i ddeuddeg oed yn cael eu rhoddi i lawr. Cafwyd sylwadau gan …. Mr Hugh Williams (Pantysaer) ….'[91]

'[ystyried olynydd i Thomas Lewis fel Aelod Seneddol] … Mr Hugh Williams, Pantysaer, a gefnogai y cynygiad gwreiddiol, ond sylwai nad oedd angen iddynt wneyd dim yn frysiog.'[92]

' … penderfynwyd, ar gynnygiad Mr Lewis Hughes, yn cael ei eilio gan Mr H. Williams (Pant y saer), 'Ein bod yn gwahodd sylw arbennig Ymneillduwyr Môn at y symmudiad Eglwysig presennol yn ffafr gwaddoli ysgolion enwadol, a'n bod yn condemnio yn bendant amcan cudd y clerigwyr i sicrhau gwaddoliadau cyhoeddus i'w syniadau gwleidyddol hwy.''[93]

'Ar y mater dirwestol penderfynwyd, ar gynygiad Mr R. W. Roberts, C.S., Menai Bridge, yn cael ei eilio gan Mr Hugh Williams, Pantysaer, 'Fod y cyfarfod hwn yn cymeradwyo ysbryd adroddiad Arglwydd Peel, a elwir "Adroddiad y Lleiafrif," ar y Ddirprwyaeth Frenhinol ar Drwyddedau, ac yn cydnabod y byddai pasio mesur ar linellau yr adroddiad yn gam pwysig tuagat leihau drygau meddwdod yn y wlad, a llawenhau fod y Ddeddf Ddiwygiedig i Gau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru, wedi pasio yr ail-ddarlleddiad, a'u bod yn fawr hyderu y bydd iddynt hwy, yn nghyda'r mesur i wahardd gwerthu diodydd meddwol i blant dan 15 oed, gael eu pasio yn fuan yn ystod y senedd dymhor presenol.''[94]

'Cynygiwyd gan Mr R. Pierce Williams, Amlwch, ac eiliwyd gan Mr Hugh Williams, Pantysaer, "Fod y cyfarfod hwn yn datgan ei anghymeradwyaeth lwyraf o weinyddiaeth y Llywodraeth bresenol mewn cysylltiad a materion tramol a chartrefol yn gyffredinol, ac yn neillduol felly yn nglyn ag estyn cynorthwy i'r ysgolion enwadol

[90] *Y Genedl Gymreig*, 7 Chwefror 1893.
[91] *Y Genedl Gymreig*, 14 Mawrth 1893.
[92] *Y Genedl Gymreig*, 5 Rhagfyr 1893.
[93] *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Rhagfyr 1895.
[94] *Y Genedl Gymreig*, 5 Mehefin 1900.

> heb gynrychiolaeth gyhoeddus yn eu llywodraethiad tra yn gomedd cymhorth cyffelyb i ysgolion y bwrdd."'[95]

Roedd ei gyfraniad tuag at y Gymdeithas Ryddfrydol yn ei alluogi i gyfarfod a chlywed rhai o brif arweinwyr y blaid yn yr oes. Er enghrifft, yr oedd Hugh Williams yn un o gynrychiolwyr Sir Fôn yng nghynhadledd y Ffederasiynau Rhyddfrydol Cymreig yn Aberystwyth yn 1887 pan anerchwyd gan nifer o arweinyddion y Blaid, gan gynnwys Earl Spencer, Stuart Rendel, a Tom Ellis, a thrafodwyd pynciau fel datgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys Genedlaethol, y ddegwm, cwestiwn y tir, Iwerddon, addysg canolraddol, a dechreuad y mudiad 'Cymru Fydd.'[96]

Dewisiwyd Hugh Williams i sefyll mewn sawl etholiad ar ran y Rhyddfrydwyr. Yn 1889 safodd yn etholaeth Moelfre yn yr etholiadau cyntaf ar gyfer y Cyngor Sir; dyma adroddiad o gyfarfod trethdalwyr Llanddyfnan, Llanbedrgoch a Llanfair Mathafarn Eithaf:

> ' …. Er fod yr hin yn anffarfiol death nifer luosog yn nghyd, ac yr oedd yn amlwg fod pawb oedd yn bresenol yn teimlo y pwysigrwydd o anfon aelod teilwng i'w cynrychioli yn ffyddlon … Mae Mr Hugh Williams, Pantysaer, wedi ei ddewis yn rheolaidd fel ymgeisydd Rhyddfrydol a phwy yn well i'n cynrychioli, gan ei fod yn un ohonom, yn werinwr selog, yn hyddysg iawn a'r diwygiadau ydym fel trethdalwyr yn sefyll mewn gwir angen amdanynt, yn Rhyddfrydwr trwyad ac yn dwyn sel mawr dros ei egwyddorion. Hyderaf y bydd pob Rhyddfrydwr yn ffyddlon iddo ef ei hun a'i egwyddorion yn yr ymgyrch bresenol, fel y meant wedi profi ei hunain yn y gorphenol, ac y dychwelir Mr H. Williams gyda mwyafrif anrhydeddus.'[97]

Collodd o 161 pleidlais i 85 yn erbyn John Rice Roberts, Rhiwlas, Pentraeth (a aeth ymlaen i sefyll dros y Ceidwadwyr yn yr etholiad cyffredinol yn 1895). Serch hynny, enillodd y Blaid Ryddfrydol 36 o'r 43 sedd yn y Cyngor Sir.

Etholwyd John Rice Roberts eto yn 1901 heb wrthwynebiad,[98] ond yn ddiweddarach yn y flwyddyn fe'i benodwyd i fod yn Glerc i'r Cyngor (cyfateb i Brif Weithredwr heddiw), a chynhaliwyd etholiad arall yn 1902. Y tro hyn cefnogodd Hugh Williams y Cadben John Williams, Bryn Adda, Ty'nygongl, fel ymgeisydd y Rhyddfrydwyr yn erbyn y Cadben Lawrence Williams, Plas Llanddyfnan, ar ran y Ceidwadwyr;[99] Lawrence Williams oedd yn fuddugol.

Yn 1904, safodd Hugh Williams ei hun yn etholiad y Cyngor Sir ar gyfer Ty'nygongl yn erbyn y Cadben Lawrence Williams – ond creodd ei benderfyniad i sefyll dipyn o stŵr ymysg rhai:

---

[95] *Y Genedl Gymreig,* 18 Ionawr 1898.
[96] *Carnarvon and Denbigh Herald*, 14 Hydref 1887.
[97] *Y Genedl Gymreig*, 28 Tachwedd 1888.
[98] *Carnarvon and Denbigh Herald*, 1 Mawrth 1901.
[99] *Y Clorianydd*, 2 Chwefror 1902.

'Etholiad Cynghor Sirol Mon: Brwydyr Waterloo – Mae'n debyg y cewch eich byddaru gan swn magnelau'n rhuo yn ystod yr wythnos hon, Caniatewch air bach o faes poethaf y frwydr, sef dosbarth Ty'nygongl neu Waterloo. Y mae y Cadben Laurence Williams, yr aelod presenol, am gael ei wrthwynebu gan Mr Hugh Williams, Pantysaer … Mi geisiodd plaid y cadben ddod i delerau cytundebol drwy gynal cyfarfod cyhoeddus yn Llanbedrgoch nos Lun, yn mha un yr ewyllysid i'r blaid ymosodol ofyn cwestiynau neu awgrymu telerau er mwyn arbed costau, ond gallaswn feddwl wrth eu habsenoldeb nad ydyw ychwanegu y trethi ond peth boddlon ganddynt. Rhaid yw ymladd, ac felly y bydd dydd Sadwrn nesaf; gan na oddefir ymresymiad rhaid mynd i'r "poll". Gan hyny, fy nghyd-etholwyr, chwi, y rhai sydd heb genfigen gul-sectol yn eich mynwes, cofiwch beth yw eich dyledswydd dydd Sadwrn nesaf – Etholwr.'[100]

'*Syr*,- Yn sydyn, ar yr unfed-awr-ar-ddeg, megis, taflwyd y dosbarth uchod i gynhwrf etholiadol oherwydd i Mr Hugh Williams, Pantysaer, ddod allan yn ymgeisydd yn erbyn y Cadben Laurence Williams, Plas Llanddyfnan, ein haelod presenol. Mae enw Mr Hugh Williams yn ddigon hysbys, bellach i holl etholwyr y dosbarth, yn neillduol felly yn Llanfair M.E., oherwydd ei gysylltiad agos a'i barodrwydd diarhebol i greu cynhyrfiadau etholiadol yn y plwyf yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Os oedd awydd aelodaeth o'r Cynghor Sirol ar ambell i frawd, paham na fuasent yn galw cyfarfod cyhoeddus er mantais i'r etholwyr gael gair yn eu dewisiad yn hytrach na galw ychydig o bwyllgor yn nghyd, ar ol anfon ei enw i mewn pan ydoedd yn rhy ddiweddar i'r pwyllgor ddewis neb ond yr un a ddewisodd ei hun? Anrhydeddusach fuasai i'r cyfeillion hyn ddod allan i gyfarfod y Cadben Laurence Williams yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ysgoldy Llanbedrgoch nos Lun Chwefror 22ain, a a hysbyswyd mewn lleoedd cyhoeddus amrwy ddyddiau yn flaenorol.[101]

Achos a gythruddodd y capeli a'r blaid Ryddfrydol yn y cyfnod hwn oedd Deddf Addysg 1902, a ddiddymodd fyrddau'r Ysgolion Bwrdd ac a roddodd y cyfrifoldeb i'r trethdalwyr o gefnogi ysgolion elfennol, gan gynnwys ysgolion Anglicanaidd. Yr Hugh Wiilliams ymysg y rai a wrthwynebodd y Mesur.[102] Ceisiodd y Ceidwadwr Lawrence Williams a'i gefnogwyr i bellhau oddi wrth y Mesur Addysg a llywodraeth geidwadol amhoblogaidd yr Arglwydd Salisbury ar y pryd. Ond collodd Hugh Williams y bleidlais; dyma a ddywedwyd yn y papur newydd:

*'Buddugoliaeth Cadben Laurence Williams* – Mae'r frwydr drosodd, a dychweled pob un i'w babell mewn hedd. Bil addysg 1902 fu achos y cynhwrf, a'r Cadben Williams a Mr Hugh Williams, Pantysaer, oedd arwyr yr ornest – y ddau yn wyr rhagorol. Gwedi'r areithio, rhanu tafleni, a chanvassio called, pleidleiswyd ddydd Sadwrn fel y

[100] *Y Clorianydd*, 3 Mawrth 1904.
[101] *Y Clorianydd*, 3 Mawrth 1904.
[102] *Y Clorianydd*, 19 Mehefin 1902.

> canlyn:- Cadben Williams, 196; Hugh Williams, 142; mwyafrif, 54. Tynwyd y Cadben yr holl fordd adref gan ei edmygwyr, yn nghanol arwyddion o lawenydd ar bob tu.'[103]

Roedd Hugh Williams yn aelod o'r Cyngor Plwyf am flynyddoedd, ac eto yr oedd yn ymroddgar ar faterion lleol.[104] Dewiswyd hefyd yn un o'r oruchwylwyr ar gyfer Bwrdd Gwarcheidwaid Undeb Môn.[105]

Mae'n debyg bod ei fethiant i gael ei ethol i'r Cyngor Sir wedi bod yn siom fawr iddo, yn arbennig gan fod y rhan helaeth o'r amaethwyr a'u etholwyd yn eiddo ar lawer mwy o dir na'r cyffredin yn y Sir, ac felly ddim yn cynrychioli'r 'ffermwyr bach' a'r fân-denantiaid fel y gwnai Hugh Williams.[106] Yr oedd Hugh Williams yn anffodus bod dau ddyn bwerys gyda adnoddau ariannol llawer mwy wedi sefyll yn ei erbyn yn y ddau etholiad – oni bai am hyn, mi fyddai wedi llwyddo i ymestyn ei ddylanwad gwleidyddol.

**Y Gymdeithas Wrth-Ddegymol a'r Comisiwn Tir**

Un o'r cyfraniadau mwyaf pwysig y gwnaeth Hugh Williams oedd i roi tystiolaeth ar ran tenantiaid amaethyddol gerbron y Comisiwn Brenhinol y Tir - neu *'Y Ddirprwyaeth Dir'* fel y gelwyd. Datblygodd y mudiad gwrth-ddegymol yn y 1870au a'r 1880au i wrthwynebu taliadau degwm i'r Eglwys Anglicanaidd. Roedd gwrthwynebiad cryf i'r taliadau yng Ngogledd Cymru yn arbennig, ac yr oedd Hugh Williams yn rhan o'r mudiad ar yr ynys:

> '*Ffurfiad Cymdeithas Wrth-Ddegymol yn Mon* – Prydnawn Iau diweddaf, cynhaliwyd cyfarfod dylanwadol o amaethwyr gwrth-ddegymol Mon, yn Llangefni, er ystyried y priodoldeb o ffurfio Cymdeithas Wrth-Ddegymol yn y sir …. Siaradwyd yn mhellach gan …. H. Williams, Pantysaer …. Penderfynwyd yn unfrydol ffurfio Cymdeithas Wrth-ddegymol yn y sir … penodwyd pwyllgor i dynu allan reolau y gymdeithas. Gweneir y pwyllgor i fyny o'r rhai canlynol ….. H. Williams, Pantsaer ….'[107]

Yn 1893, cafwyd ymdrech i sefydlu cymdeithas ar ran amaethwyr, ac yn arbennig tenantiaid, ond yr oedd anghydfod o'r cychwyn ynglŷn ag enw ac aelodaeth y gymdeithas:

> *'Y Diwasgiad Amaethyddol – Cyfarfod Pwysig yn Mon* – Dydd Iau diweddaf cynhaliwyd cyfarfod lluosog yn Neuadd Drefol Llangefni i dderbyn adroddiad y pwyllgor ['Cymdeithas Amaethwyr Môn'], ond mewn canlyniad i lythyr o eiddo Mr William Prytherch, C.S., Bodfeddan, yn y *North Wales Chronicle*, yr oedd amryw o tirfeddianwyr, ac hefyd rai gweithwyr, wedi dyfod i mewn i'r cyfarfod, a chafwyd

---

[103] *Y Clorianydd*, 10 Mawrth 1904. Yn 1910, enciliodd (y nawr) Uwchgapten Lawrence Williams o'r Blaid Geidwadol i'r Blaid Ryddfrydol.

[104] *Gwalia*, 22 Ebrill 1902.
[105] *Gwalia*, 22 Ebrill 1902.
[106] W.P. Griffith, ….., 272-3.
[107] *Y Genedl Gymreig*, 18 Chwefror 1891.

ymdrafodaeth lled faith ar beth fyddai enw y gymdeithas, yr hyn hefyd a olygai pa un a ganiateid i'r tirfeddianwyr a'r gweithwyr ymuno.

> Mr H. Williams, Pantysaer, a gynygai welliant fod i enw y gymdeithas barhau fel o'r blaen. Ni roddai ef i fewn i unrhyw un am ei barch tuagat y tirfeddianwyr fel y cyfryw, ond credai mai wrth fod ar wahan iddynt y gallai yr amaethwyr wneyd daioni yn y cyfeiriad yna. [Cynigwyd] i'r enw fod yn "Undeb Amaethyddol Mon," pryd y pleidleiswyd, a chafwyd mwyafrif mawr dros hyn.'[108]

Denodd y cyfarfod yn Llangefni sylw *Baner ac Amserau Cymru*:

> '*Yr Amaethwyr a'u Symmudiadau* - …. Y mae blynyddoedd o brofiad wedi argyhoeddi yr amaethwyr, bellach, nad ydyw yr *Agricultural Holdings Act* yn werth dim. At bwy y try yr amaethwyr am i'w hachos gael ei osod yn deg o flaen y Dirprwywyr? Nid at y dosbarth hwnw sydd bob amser yn disgwyl fel cwn eu meistriaid am i grystyn neu asgwrn gael ei daflu iddynt; ond at wŷr na chymmerant eu troi o'r ffordd gan ofn na ffafr. Mawr ddiolch i Mr Samuel Hughes am olchi ei ddwylaw oddi wrth y helynt yn Llangefni; i Mr Hugh Williams, Pantysaer, am ei welliant; ac i Mr William Edwards, Llanfair P.G. am ei brotest. Y maent hwy, ac ychydig eraill, wedi dangos fod ganddynt asgwrn cefn. Ond am y rhai a bleiddiasant yr asyn, rhad arnynt!'[109]


Y

DDIRPRWYAETH DIR.

SIR FON.

ACHOS LLYSLEW.

TROI YN EGLWYSWYR ER CAEL FFERMYDD.

CWYNION DIFRIFOL: CYTUNDEBAU GORTHRYMUS.

Y LANDLORDIAID A'R "GENEDL."

TYSTIOLAETHAU PWYSIG.


Yr Ail Ddiwrnod.
(DYDD MERCHER, HYDREF 11, 1893.)

LLANGEFNI.

Yn 1893, ar ôl hir ymdrechu gan aelodau Seneddol Cymreig, cafwyd addewid gan y llywodraeth Ryddfrydol i gynnal Comisiwn Brenhinol i mewn i 'gwestiwn y tir' yng Nghymru – sef y sefyllfa amaethyddol, y berthynas rhwng tenantiaid a thirfeddianwyr, rhenti amaethyddol, hawliau tenantiaid a llu o gwynion eraill ar ran yr amaethwyr. Pasiwyd cynnig yng nghyfarfod Cymdeithas Ryddfrydol Môn i sefydlu pwyllgor i baratoi tystiolaeth i'w osod gerbron y Comisiwn, a dewisiwyd Hugh Williams yn un o'r cynrychiolwyr.[110]

Sefydlwyd y Comisiwn Tir ym mis Mawrth 1893; y cadeirydd oedd yr Arglwydd Carrington, ac yr oedd wyth aelod arall. Symudodd y Comisiwn o'r naill le i'r llall trwy Gymru; galwyd ar 1,086 o dystion yn ystod yr ymchwiliad. Cynhaliwyd y sesiynau yn Sir Fôn yn Llangefni rhwng 10 a 14 Hydref 1893; ar yr ail ddiwrnod, galwyd Hugh Williams yn un o'r tystion. Cyflwynodd ei dystiolaeth yn Gymraeg, a chyhoeddwyd y tystiolaeth lawn mewn atodiad i'r

[108] *Y Genedl Gymreig*, 11 Ionawr 1893.
[109] *Baner ac Amserau Cymru*, 1 Chwfror 1893.
[110] *Y Genedl Gymreig*, 7 Chwefror 1893. *Carnarvon and Denbigh Herald*, 10 Chwefror 1893.



*Tyst Rhif* 14.

MR HUGH WILLIAMS, PANTSAER ISAF.

**Mr Huhh Willliams a ddywedodd mai ychydig iawn ydyw nifer yr amaethwyr sydd yn dal tir ar brydlesoedd. Lle y mae prydlesoedd ar y ffermydd y maent yn cael eu trin yn well, am fod gan y deiliaid sicrwydd daliadaeth am amser priodol. Cofiai am saith o wahanol deuluoedd yn byw mewn un fferm, ac aeth dau neu dri tenant o'r saith trwy eu holl eiddo yno. Rhaid priodoli methiant y cyfryw i'r ffaith fod y tir hwnw yn rhy uchel ei bris. Mae wedi myned yn beth lled gyffredin i'r naill amaethwr fyned i'r bank yn feichiau i amaethwr arall am arian i dalu yr ardreth.**

AMAETHWYR YN BYW YN GALED.

**Nid oedd y tyst yn gwybod am ddosbarth o ddynion yn y wlad yn gweithio mor galed a man dyddynwyr a ffermwyr bychain, nad am neb chwaith yn byw ar ymborth mor galed. Y mae llawer o'r cytundebau sydd rhwng y tirfeistri a'u tenantiaid yn orthrymus. Mae y tenant yn fynych yn arwyddo**

*Tystiolaeth Hugh Williams*

adroddiad terfynol.[111] Siaradodd Hugh Williams o'i brofiad personol, yn ogystal â chynrychioli diddordebau'r tenantiaid lleol. Dyma rai darnau o dystiolaeth Hugh Williams, fel yr adroddwyd yn y papurau lleol:

'Mr Hugh Williams a ddywedodd mai ychydig iawn ydyw nifer yr amaethwyr sydd yn dal tir ar brydlesoedd. Lle y mae prydlesoedd ar y ffermydd y meant yn cael eu trin yn well, am fod gan y deiliaid sicrwydd daliadaeth am amser priodol ….

'Nid oedd y tyst yn gwybod am ddosbarth o ddynion yn y wlad yn gweithio mor galed a man dyddynwyr a ffermwyr bychain, nad am neb chwaith yn byw ar ymborth mor galed. Y mae llawer o'r cytundebau sydd rhwng y tirfeistri a'u tenantiaid yn orthrymus. Mae y tenant yn fynych yn arwyddo cytundeb na wyr yn y beth ydyw, ac na welodd ef erioed ond unwaith pan yn ei arwyddo …. Y mae rhenti ffermydd bychain fel rheol yn uwch o un ran o dair na rhenti ffermydd mawr ar gyfartaledd. Mewn llawer o amgylchiadau y meant yn uwch o'r haner…. Cyflwynodd y tyst ffeithiau yn profi fod rhenti amryw ffermydd wedi cael eu codi yn ddiweddar.

'Nid oedd yn gwybod am rent unryw ffarm yn y dosbarth wedi ei gostwng yn ystod y 50 mlynedd diweddaf …. Y mae man fasnachwyr yn y gwahanol gymydogaethau yn gorfod dioddef yn dost oblegid fod y rhent i'w thalu o flaen pob gofyn arall. Cymaint ydyw yr afael sydd gan y Cymry yn eu cartrefi fel y talent yr ardrethoedd rhag ofn iddynt gael eu hel i ffwrdd, serch gadael pob gofyn arall a allant heb ei dalu.

'Mae tyddynwyr yn sicr o fod yn fwy medrus gyda phob math o waith ffarm na ffermwyr mawr, a gallent fyned trwy adeg o ddirwasgiad yn well gan y byddant yn gweithio yn achlysurol oddiar y tyddyn er enill arian i dalu y gofynion … Mae ffeithiau yn dangos mai ffermydd canolig o faint ydyw y goreu, a chymeryd pob peth i ystyriaeth.

'Gwarchodir helwriaeth gan y tir feistri yn y rhanau acw o'r wlad … Fe wneir llawer o golled i'r ffermwyr gan helwriaeth. Nid ydynt yn cael eu talu yn briodol am y golled bob amser…. Y mae llawer o ffermydd yn y gymdogaeth yn byw yn gwneyd defnydd o gymdeithasau cleifion. Y mae dwy o gymdeithasau felly yn y dosbarth yn rhifo rhyngddynt tua 300 o aelodau.

[111] *Royal Commission on Land in Wales*, llinellau 19,895-20,004.

'Y mae amryw o ddeiliaid wedi prynu tyddynod i'w dal a'u trin eu hunain yn y dosbarth. Yr hyn oedd yn eu symbylu i wneyd hyn oedd awydd gwella eu hamgylchiadau; eraill a gafael fawr ganddynt yn eu cartrefi, ac yn eu prynu deued a ddelo rhag eu colli. Y mae y ffermwyr rhydd-ddaliadol fel rheol yn trin eu tiroedd yn llawer gwell na tir-ddeiliaid eraill. Mae y rheswm am hyn yn eglur, nis gall neb eu hel i ffwrdd, a chant ad-daliad am eu llafur, "y mae ganddynt galon i weithio." …..

'Ychydig iawn o rieni plant sydd yn byw mewn ffermydd bychain a allent gynorthwyo eu plant yn troi allan neu yn priodi. Ni fyddai yn bosibl talu y rhenti presenol pe y rhoddid cyflog priodol i'r plant am weithio. Nid yn unig ni chaiff y plant sydd adref gyflog, ond y mae y plant sydd wedi myned oddi cartref yn anfon arian adref i helpu eu rhieni i dalu yr ardreth a'r trethi. Buasai ar ben ar lawer tyddynwr a ffarmwr yn Mon er's blynyddoedd lawer oni bai am hyn.'

Yna, cafodd Hugh Williams ei groesholi gan aelodau'r llys:

'Mr R. Jones: Beth yw lluniaeth yr amaethwyr? H.W.: Bara llefrith i frecwast, 'tatws a llaeth, 'tatws a menyn, a rhai gig hallt, i giniaw, tê a bara 'menyn i dê, ac uwd a llaeth i swper. Yr oedd llawer o ffermwyr nad oeddynt yn cael cig o un flwyddyn i'r llall.

' …. Mewn atebiad i'r Proffeswr Rhys, cwynodd y tyst nad oedd y cytundebau ar yr etifeddiaethau yn Gymraeg. Pe y buasent yn Gymraeg buasai y tenantiaid yn eu deall i gyd ac yn astudio mwy arnynt.

'Cwestiwn o eiddo Mr Owen Wynne: O berthynas i ymborth yr amaethwyr, a fyddant hwy yn cael ambell i lasiad o gwrw? (chwerthin). H.W.: Bydd y dosbarth salaf ohonynt, ond ni fydd yr amaethwyr goreu yn cymeryd dim (chwerthin) …'[112]

Parhaodd y Comisiwn am dair blynedd a hanner, a chyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ym mis Hydref 1896.[113] Mae chwe cyfeiriad at Hugh Williams a'i dystiolaeth yn yr Adroddiad terfynol, gan gynnwys:

**Rhenti** – 'A tenant farmer and manure agent, who had been selected to give evidence as to the parish and district of Llanfair Mathafarn, gave particulars concerning a series of small holdings, the rents of which had been raised. In the case of his own farm of 38 acres, Pantysaer Isaf, he made a statement to the following effect:

"When my great-grandfather entered the place, the house and outbuildings had their roofs fallen in; in fact, they were in ruins. He became tenant, at first, at a rent of 9l. a year. It was subsequently raised at some time or other to 15l. the farm was

[112] *Y Genedl Gymreig*, 17 Hydref 1893; *Y Cymro*, 19 Hydref 1893; *Carnarvon and Denbigh Herald,* 13 Hydref 1893.
[113] *Royal Commission on Land in Wales*, 1896.

sold about 45 years ago, and the rent was raised first from 15l. to 28l., then to 33l., and afterwards to 35l. As far as I am able to judge, the expense to the landlord during the whole time it has been in the occupation of my ancestors and myself was only about 200l., that being the estimated cost of a house and outbuildings erected about 20 years ago. On the other hand, my ancestors and I have invested hundreds of pounds in the place without receiving a penny as compensation." (tud 424-425).

**Helwriaeth**: "The tenants suffer much loss through the game, and they are not always sufficiently recompensed for their loss. In some parts of the county the tenants are obliged to pay the game tax, and, of course, the landlords, or some persons appointed by them, enjoy the benefit. This is the case in the parish of Llanfair Mathafarn Eithaf. The tenants throughout the parish pay the game tax." (tud 504)

**Ardrethi**: "The local rates have not increased in my district during the last 25 years, except in two parishes, viz., Llanddyfnan and Llanfair Mathafarn Eithaf. The increase in these parishes is due to education …"

**Treth ar dir**: '"The occupiers pay the land tax as a rule, and that is the case without exception in the parish of Llanfair Mathafarn eithaf. The occupiers pay the local rates, but there are some exceptions among those who only occupy houses and gardens. The income tax is paid by the landlords, but if paid by the tenant for convenience sake, it is returned on the rent day." (tud 521-522).

**Lluniaeth yr amaethwyr**: 'Mr Hugh Williams spoke as to Llanfair Mathafarn Eithaf and the adjoining parishes of the Anglesey Union, to the effect that some of the farmers there live "on bread and milk" for breakfast, on "potatoes with butter-milk and potatoes with butter" for dinner, adding that some get salt meat, but very seldom any meat except salt meat, that is to say, bacon and beef. He went on to say that they have bread and butter and tea in the afternoon, and porridge and butter-milk for supper. Lastly, he said that "there are many farmers who cannot afford to get a piece of fresh meat once a year." (tud 632)

O'r dyfyniadau, mae'n debyg bod Hugh Williams wedi cael cryn argraff ar waith y Comisiwn.

Yn anffodus, erbyn i'r adroddiad terfynol cael ei gyhoeddi, yr oedd llywodraeth Geidwadol yn ôl mewn grym, ac ni fabwysiadwyd yr argymhellion; hefyd, yr oedd y sefyllfa yn y diwydiant wedi gwella rhywfaint. Barn yr hanesydd John Davies am y canlyniad oedd:

'Dedfryd amhendant ar ddilysrwydd y cyhuddiadau yn erbyn y dosbarth tiriog a geir yn y dystiolaeth a gasglwyd gan y comisiwn.'[114]

---

[114] John Davies, *Hanes Cymru* (Penguin, 1990).

Serch hynny, mae rhaid edmygu dewrder Hugh Williams a'i barodrwydd i roi tystiolaeth gerbron y Comisiwn Brydeinig, ac i ddenu sylw at sefyllfa bregus y tenantiaid amaethyddol yn y cylch.

**Ysgol y Bwrdd Tabernacl, Ty'nygongl**

Chwaraeodd Hugh Williams ran bwysig yn yr ymdrech i sefydlu Ysgol y Bwrdd Tabernacl, Ty'nygongl, ar ddechrau 1878, ac yn ddiweddarach fel Cadeirydd ac aelod o'r Bwrdd, ac yn un o'r rheolwyr lleol. Roedd cefndir cythryblus i'w sefydlu oherwydd gwrthwynebiad i'r ardrethi ychwanegol i gynnal yr ysgol, a'r penderfyniad i uno ysgolion Llanfairmathafarneithaf a Llanddyfnan o dan yr un Bwrdd.[115]

Yr oedd yr etholiadau i Fwrdd yr Ysgol yn cael eu cystadlu'n frwd, ar y cychwyn ar sail grefyddol, gyda ymgeiswyr ar ran yr Eglwys yn erbyn y rhai ar ran yr Ymneulltwyr, ac yn ddiweddarach ar sail wleidyddol. Yr oedd pwysau parhaus gan etholwyr i geisio osgoi costau cynnal etholiad.

Mis cyn etholiad y Bwrdd yn 1899 fe gynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o dan lywyddiaeth Hugh Williams 'er ceisio dyfod i gyd-ddealltwriaeth er ceisio osgoi etholiad, yr hyn beth y mae yn ddywesydd genym y llwyddwyd i'w gyraedd.'[116]

Bu etholiad arall yn 1898, ond y tro hyn nid oedd modd osgoi cael cystadleuaeth. Roedd wyth ymgeisydd – safodd Hugh Williams fel Rhyddfrydwr, a gafodd y mwyaf o bleidleisiau.[117] Dewisiwyd Hugh Williams yn Gadeirydd – *'Haeddai Mr Williams yn ddiddadl yr anrhydedd hyn.'*[118]

Cafwyd etholiad arall dair blynedd yn ddiweddarach, ac unwaith eto yr oedd y gystadleuaeth yn un gwleidyddol: *'Bu ymdrechfa boethlyd. Daeth y Ceidwadwyr allan i geisio diseddu rhai o'r hen aelodau, yn enwedig y cadeirydd, ond troes yr ymdrech allan yn fethiant hollol.'*[119] Ail-etholwyd Hugh Williams.

Ar ôl Deddf Addysg 1902, diddymwyd y Byrddau Ysgol a gwnaethpwyd Pwyllgorau Addysg y Cynghorau Sir yn gyfrifol am ysgolion elfennol, ond parhaodd Hugh Williams yn un o'r rheolwyr lleol i'r ysgol hyd ei farwolaeth.

Mae'n amlwg o ddyddlyfr yr ysgol o'r cyfnod bod Hugh Williams ac aelodau eraill y Bwrdd wedi ymgymeryd a'u dyletswyddau yn gydwybodol, gan gynnwys archwilio'r cofrestrau

---

[115] Mae'r hanes llawn yn Emyr Roberts, op. cit., pennod 2.
[116] *Y Genedl Gymreig*, 17 Ebrill 1889.
[117] *Y Genedl Gymreig*, 12 Ebrill 1898.
[118] *Y Genedl Gymreig*, 24 Mai 1898.
[119] *Yr Herlad Cymraeg,* 16 Ebrill 1901.

presenoldeb, penodi athrawon, a threfnu'r cyllid.[120] Roeddynt hefyd yn cefnogi gweithgareddau'r ysgol:

> 'Cafodd plant yr ysgol eu diwallu â the a bara brith prydnawn Gwener. Ar ol clirio y byrddau cafwyd cyfarfod cyhoeddus hynod o ddifyr ac adeiladol … Llongyfarchai Ap Mathafarn [Hugh Williams] athraw ac athrawes yr ysgol ar y wedd lewyrchus sydd ar yr ysgol yn bresenol. Cynghorai y plant i fod yn lân yn eu personau, yn eu gwisg, yn eu geiriau a'u gweithredoedd…'[121]

**Cymdeithas Ddadleuol Ty'nygongl a Chymdeithas Lenyddol Bro Goronwy**

Roedd nifer o gymdeithasau yn ardal Llanfair Mathafarn Eithaf ar y pryd, ond mae'n debyg mai yr un mwyaf nodedig oedd y Gymdeithas Ddadleuol. Mae hanes dechreuad y Gymdeithas wedi ei gofnodi mewn nodyn difyr gan Mr J. Prytherch Williams:[122]

> 'Nos Fawrth, 19eg o Dachwedd 1901 daeth nifer o bersonau ynghyd i Ysgol y Bwrdd Tabernacl, eu gwaith oedd ystyried gyda'i gilydd y buddioldeb o sefydlu Cymdeithas Lenyddol neu Ddadleuol yn y cylch. Pasiwyd fod Mr. W. D. Williams i gymryd y gadair am y noson. Wedi i Mr Williams egluro amcan y cyfarfod galwodd ar y Parchedig J. Tywi Jones, gweinidog a fu yn y cylch hwn gyda'r Bedyddwyr am yn agos i naw mlynedd, i annerch y gynulleidfa, a danghosodd yn eglur yr amrywiol ragoriaethau a berthynant i gymdeithas o'r math yma, fel y cwyd ym meddyliau rhai, nad ydynt cyn hynny wedi gwneud ymdrech o gwbl, ryw uchelgais ac awydd am wybodaeth. Eglurodd y dull ym mha ffordd y cariwyd ymlaen gymdeithas lenyddol i'r hon y perthynai pan yn Aberdar. Wedi hynny dilynwyd ef gan weinidog parchus y Tabernacl Y Parchedig John Roberts a'r cawr-feddyliwr y Parchedig Thomas Parry, curad y plwyf, hwythau mewn areithiau cryfion er profi buddioldeb rhyw sefydliad cyffelyb …'

Pasiwyd cynnig i sefydlu Cymdeithas Ddadleuol, a dewiswyd swyddogion - yr oedd Hugh Williams yn aelod o'r Pwyllgor gwreiddiol. Yn ôl rheolau'r gymdeithas, roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal am 7.00 bob nos Wener yn ystod y tymor a'r tâl aelodaeth yn 6 cheiniog. Roedd y prif ddadleuwyr yn cael 15 munud i gyflwyno eu pwnc, ac roedd eu cefnogwyr yn cael 10 munud yr un. Newidwyd yr enw i 'Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy' yn 1904.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Pwyllgor, cofnodir bod Hugh Williams yn cymryd rhan bron ym mhob trafodaeth.[123] Mae testunau'r Gymdeithas yn y flwyddyn gyntaf yn cynnwys materion o bwys, a rhai mwy ysgafn hefyd, er enghraifft:

---

[120] Archifau Môn, WA/8/165.
[121] *Y Genedl Gymreig*, 28 Hydref 1885.
[122] Archifau Môn, WDAC/44.
[123] Archifdy Prifysgol Bangor, BMSS Bangor.


'*Y Pwlpud a'r Wasg – pa un sydd yn dylanwadu mwyaf'*

*'Pa un ai merch o'r dref ai merch o'r wlad sydd yn gwneud y wraig oreu?'*

*'A ddylai merched ymgymeryd a swyddau cyhoeddus?'*

*'A ellir cyfiawnhau y rhyfel bresenol'* [hy Rhyfel y Boer]

*'Pa un ai maintais ai anfantais i'r Cymry fyddai colli'r iaith Gymraeg'*



RHEOLAU DADLEUAETH.

1.—Ni chyfyngir y dadleuwyr i'r testynau argraphedig, ond os bwriadant wneyd unrhyw gyfnewidiad, disgwylir iddynt roddi tair wythnos o rybudd o hyny i'r Gymdeithas.

2.—Fod yr Ysgrifenyddion i roddi tair wythnos o rybudd i'r prif ddadleuwyr a darllenwyr papyrau, ac wythnos i'r aelodau ereill.

3.—Mewn achos o fethiant o du dadleuydd neu ddarllenwr papyr i fod yn bresenol, disgwylir iddo drosglwyddo ei bapyr i'r Ysgrifenyddion mewn pryd i gael ei ddarllen yn y Cyfarfod penodedig. Apwyntir y darllenydd gan y Cyfarfod y darllenir y papyr iddo.

4.—Terfynir pob dadl y noson yr agorir hi.

5.—Caniateir chwarter awr i'r prif ddadleuwyr i gyflwyno y pwnc, a deng munyd yr un iddynt i symio i fyny ar y diwedd. Caniateir pum' munyd i ereill fyddant yn cymeryd rhan yn y ddadl. Caniateir ugain munyd i ddarllenwyr papyrau, a deg munyd i ateb ar ol y rhydd-ymddiddan.

6.—Ni chaniateir i unrhyw aelod (ag eithio'r prif ddadleuwyr) siarad fwy nag unwaith yn yr un ddadl, oud i egluro os bydd angen.

7.—Ni chaniateir cyfeiriadau at areithiau wnaed mewn Cyfarfodydd blaenorol.

8.—Ni chaniateir sylwadau personol.

9.—Dyfarniad y Cadeirydd i fod bob amser yn derfynol.

Elizabeth Jones, Typ., Market Square, Llanerchymedd.

Cymdeithas Ddadleuol

TY'NYGONGL,

TYMHOR 1902-03.

Swyddogion :—

*Llywydd :—*

Prof. W. LEWIS JONES, M.A., Bangor.

*Cadeirydd :—*

Mr. HUGH WILLIAMS.

*Is-Gadeiryddion :—*

Parch. T. PARRY a Mr. R. HUGHES.

*Trysorydd :—*

Mr. OWEN ROBERTS.

*Ysgrifenyddion :—*

Mri. W. D. WILLIAMS a W. R. WILLIAMS.

Pwyllgor :—

| | |
|---|---|
| Parch. John Roberts. | Miss L. Jones. |
| Parch. J. Tywi Jones. | Miss A. E. Williams. |
| Mr. Rd. Williams. | Mr. D. Davies. |
| Mr. R. J. Williams. | Mr. Ed. Williams. |
| Mr. Owen Jones. | Mr. R. Lloyd. |
| Miss Roberts. | Mr. G. Pritchard. |
| Miss L. C. Owen. | Mr. J. C. Parry. |

*Aelod* ........................................

*Rhif*

*Rhaglen y Gymdeithas Ddadleuol 1902-03*

Yng nghyfarfod 3 Ionawr 1902, roedd Hugh Williams yn un o'r '*ymgeiswyr'* ar ran y Rhyddfrydwyr '*i ddewis aelod seneddol dros Ty'nygongl*' (yr ymgeisydd Llafur a enillodd).

Etholwyd Hugh Williams yn gadeirydd am y tymor 1902-03,[124] ac unwaith eto yr oedd cymysgedd o destynau difrifol a doniol:

*'A ddylid cyfyngu yr Eisteddfod Genedlaethol i Gymru, Cymro, a Chymraeg?'*

*'A yw addysg ganolraddol yn fanteisiol i ferched ar gyfer dyledswyddau teuluaidd?'*

*'Pa un ai brenhiniaeth ai gweriniaeth yw'r ffurf lywodraeth orau?'*

*'Pa un ai llyfrau neu cyfeillion sydd fwyaf dylanwadol i ffurfio cymeriad?'*

Yng nghyfarfod 6 Mawrth 1903 cafwyd anerchiad gan Hugh Williams ei hun ar 'Owain Mathafarn a'i Gydoeswyr':

> 'Cafwyd anerchiad rhagorol … Yn ystod ei anerchiad cyfeiriodd Mr Williams at amryw o rai oedd yn cydoesi ag 'Owain Mathafarn', llawer ohonynt yn feirdd o fri, a difynodd amryw ddarnau o'u gweithiau … Pasiwyd yn unfrydol bleidlais o ddiolchgarwch i Mr Williams am ei anerchiad, ac anogwyd yn daer arno ei gyhoeddi.'

Ar ddiwedd y tymor, cynhaliwyd *'swper ardderchog … Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol … Mrs Hugh Williams, Pant y Saer.'*[125]

---

[124] *Y Clorianydd*, 22 Mai 1902.
[125] *Y Clorianydd*, 2 Ebrill 1903.

Cafwyd adolygiad llawn o dymor 1902-3 y Gymdeithas Ddadleuol yn *Y Clorianydd* gan *'Un o'r Criw'*, lle y dywedir:

> 'Gwneid y "cabinet" i fyny fel y canlyn:- Cadeirydd, Mr Hugh Williams; is-gadeiryddion …. "all bound" – etholedig gan gyfangorph o gylch 90 o aelodau … Pan oeddis yn hwylio i'r daith yn yr Hydref daroganai llaweroedd na odaliai'r llestr yr ystormydd gauafol, fod gwendidau yn ei pheirianwaith, anghymwysderau yn ei swyddogion, y porthladdoedd (testynau) naill ai yn rhy ddyfn, bass neu greigiog, ac y ceid edrych a rei darnau ar draeth "diffyg sel" cyn nemawr amser. Yn ffodus profodd y prophwydoliaethau yn wahanol, gan nas gwyddai'r rhai a brophwydasant ddinystr y "quantity" na'r "quality" gyda pha rai yr hwyliodd … cafodd hanes Owain Mathafarn (hen drigianydd) berffaith chwareu teg ar law ein cadeirydd ….
>
> 'Cafodd y cadeirydd y pleser o reoli ty llawn bron, drwy gydol y tymhor, a llanwyd y gadair a'i berson ac a'i farn yn ddymunol iawn. Golygwn, wrth gwrs, ei bresenoldeb gwastadol a'i fedr yn ei ymdriniaeth swyddogaethol, araf ond sicr. Posibl fod yr hwn a hona ei hun yn rhyddfrydwr ychydig yn geidwadol yn ei reoleiddiad o'r gadair, ond dangosodd berffaith degwch a phob barn a phlaid. Tybiem weithiau ein bod yn gwrandaw ar un o farnwyr ein gwlad yn agor achos a'i symio i'r rheithwyr pan fyddai ein cadeirydd yn statio'r safle. Gallaf ei sicrhau y rhoddodd bob bodlonrwydd disgwyliedig; ond nis gallaf ei sicrhau y bydd iddo, mwy na Maer Llundain, barhau yn hwy na blwyddyn yn ei "robes," gan mai arferiad ein cymdeithas yw cyfnewid yr holl ddwylaw – posibl hefyd y caiff ei ail-ethol.'[126]

Yn y tymor ddilynol, cafodd y ddadl, "Pa un ai diffyndollaeth ai masnach rydd yw y polisi goreu?" sylw arbennig yn y wasg:

> 'Disgwylir "battle royal." Gwneir darpariadau helaeth tuag at ddiogelu caerfa Masnach Rydd gan y cadfridog medrus Mr Hugh Williams a'i gatrodau glew; tra mae'n sicr y gwneir ymosodiad rhuthriadol gan gyflegrau y Diffyndollwyr o dan arweiniad y medrus faeslywydd Parch T. Parry ….. Disgwylir llu o gewri i'r gad y naill ochr neu'r llall.'[127]
>
> '*Brwydr y 'Trade Policy' yn Llanfair M.E. [War Special]* – Cledwid y ddinas gan wyr glew y Free Trade Volunteer Battalion, dan arolygiaeth medrus y Cadfridog H. Williams; tra yr ymosodwyd gyda dewrder gan y Fair Trade Dutiful Bound Battalion, dan reolaeth y Cadfridog Parry, dau faes lywydd profiadol, yn dwyn "medals" a "chlaspau" o frwydrau fu; gan hynny, yr oedd llywyddiaeth y byddinoedd mewn dwylaw celfydd. Am chwarter wedi saith yn yr hwyr gan Cadfridog Williams drwy roddi "blank shot" i arwyddo fod y Free Camp yn barod, pan fynegodd mai Free Trade oedd y polisi goreu i'n gwlad, ac fod diffyndollaeth yn arwyddo dinystr

---

[126] *Y Clorianydd,* 16 Ebrill 1903.
[127] *Y Clorianydd*, 14 Ionawr 1904.

masnachol. Bu yn hynod brysur am ddeng munud llawn yn ceisio gosod y gynau mewn "range" i anelu tuagat "rhyw ddyn," meddai, "sy'n byw yn Birmingham, o'r enw Joseph Chamberlain." Yna dacw gawodydd o "shots" i'r cyfeiriad hwnw, gan gymeryd ei gwrs politicaidd yn faen tramgwydd …'

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddisgrifio'r '*frwydyr*' yn ddoniol, cyn cloi:

> 'Wedi llawer o danbelenu, llwyddodd y Free Traders i barhau cadwraeth y gaerfa drwy wyth o fwyafrif.'[128]


Roedd rhai yn tynnu coes Hugh Williams o dro i dro:

> '*Lot o Students* – Bu y Dr. David Jones yn traddodi anerchiad gerbron y Gymdeithas Ddadleuol nos Wener ar "Anianeg y corph" … Pe y byddai yn arholiad, fel y crybwyllai "y senior scholar" H.W. (bachgen addawol, ynte?) cawsai y Dr. weled mai nid Masnach Rydd a Diffyndolliaeth yn unig gyfleai eu gwybodaeth, ond "subjects" eraill hefyd …'[129]

Ar ddiwedd mis Ionawr 1904, cynhaliwyd cyfarfod llenyddol, ac yr oedd Hugh Williams yn amlwg eto:

> 'Dyfarnwyd fel y canlyn: Traethawd (y gwelliantau yn Mro Goronwy) a'r Cronicl (hanes hen gymeiriadau'r plwyf) H. Williams, Pantsaer, yr hwn hefyd fu'n gyd-fuddugol a Mr D. Davies, Fron, ar y farddoniaeth (yr olygfa o hen gaerfa Pantsaer) …. Y beirniaid, pa rai roddasant bob boddlonrwydd, oedd …. Dr T.R. Williams a Gwilym Mathafarn (barddoniaeth), Lerpwl, … yn nghyd a Mr H Williams (Ap Mathafarn), yr hwn fel y gwelir a ymenwogodd fel llenor a bardd fel i gario llawryf yr eisteddfod.'[130]

Tybed a wyddai Gwilym Mathafarn ei fod wedi gwobrwyo ei frawd yn y gystadleuaeth barddoniaeth?


"Yr olygfa o hen gaerfa Pantysaer."
(Heb fod dros gan llinell)

1. Hawn ddydd eglur yn y Rhagfyr
Dringais farian Pant y Saer
Syllu wnaethym nes y daethym
at derfynau pen y gaer
Nawr edrychais o fy amgylch
Bob cyfeiriad ar fy hynt
Rhyfedd yw ardalau Natur
Yn y Cwmwd megis cynt.

2. Wrth i'm edrych tua'r dwyrain
Gwelwn ben y Gogarth gref
Yn ei chesail mae Llandudno
Cyrchfa Saeson hyfryd dref
Nid yn nepell ger y Fenai
Y mae Castell Conwy hardd
Lle cadd Saeson gynt eu trechu
Testyn cân i lawer bardd

*Y gerdd fuddugol yn Eisteddfod 1904*

Y gerdd fuddugol oedd, '*Yr olygfa o hen gaerfa Pantysaer' (heb fod dros gan llinell),* gan *'Arthur y Fordgron'* – dyma'r bennill gyntaf:

---

[128] *Y Clorianydd*, 28 Ionawr 1904.
[129] *Gwalia*, 17 Tachwedd 1903.
[130] *Y Clorianydd*, 4 Chwefror 1904.

'Nawn ddydd eglur yn y Rhagfyr

Dringais farian Pant y Saer

Syllu wnaethym nes y daethym

At derfynau pen y gaer

Nawr edrychais o fy amglych

Bob cyfeiriad ar fy hynt

Rhyfedd yw ardebau natur

Yn y cwmwd megis cynt.'[131]

Mae'r traethawd buddugol '*Cronicl byr o hanes a dywediadau hen gymeriadau plwyf Llanfairmathafarneithaf a'r Cylch*' yn waith ysgolheigaidd - 70 tudalen mewn llawysgrif, yn disgrifio cymeriadau, gwaith a dywediadau 42 o ddynion, y rhan fwyaf ohonynt yn weinidogion neu â chysylltiad gyda chapeli ac eglwysi plwyf Llanfair Mathafarn Eithaf.[132] Mae'r sylwadau'n llawn hiwmor, yn dangos mewnwelediad craff i'r cymeriadau, ac yn dangos dyfnder gwreiddiau Hugh Williams yn ei fro – bu farw rhai o'r trigolion cyn iddo gael ei eni, ond mae'n amlwg bod y storïau amdanynt wedi cael eu pasio ymlaen iddo. Yn aml, mae'r dywediadau yn tarddu o'r Beibl, ac yn dangos ei fod wedi gwrando'n astud ar eiriau'r hen gymeriadau:

> 'Parchedig Hugh Roberts, Tyddyn Tlodion ….. Yr oedd yn waeddwr bron digyffelyb wrth bregethu, ac heblaw gweiddi byddai yn dyrnu a'i ddyrnau ar astell y pulpud ar adegau nes y byddai y canhwyllbreni yn neidio o'u socets …'
>
> 'William Williams, Olgra Gerrig … Clywsom ef yn dweud unwaith fod dyn yn dechrau canu mewn cynulleidfa neilltuol ac yn anfon hogyn bach at ddyn arall yn y gynulleidfa gan ofyn iddo beidio canu gan ei fod yn peri discord, ac iddo yntau yrru yn ol gan ddweud mai nid iddo ef yr ydoedd yn canu ond i Dduw …'
>
> 'Owen Jones, Minffordd … Wele rai o'i ddywediadau, "Y mae yn gas heb wybod beth i'w wneud a beth i beidio": "Gorau cannwyll pwyll i ddyn": "Cynta'i og cynta'i gryman".
>
> 'Y Parch John Richard Hughes, Brynteg … "Yr ydych" meddai wrth rieni plant "yn fwy am eich lloiau nag am eich plant", eto "Byddai yn well i chwi roddi addysg i'ch plant nag esgidiau am eu traed neu chot am eu cefnau". "Fe dal y plant am eu haddysg"…'

[131] Archifau Môn, WM 2605/2
[132] Archifau Môn, WDAC/35 a 36.

> 'Y Parch John Phillips, Bangor … "Os byddwch wedi cynhyrfu cyfrifwch ddeuddeg cyn ceryddu"….'

> 'Owain Mathafarn: sef Owen Jones, Minffordd …. Yr oedd mam "Owen Sion" fel y'i gelwid ef yn gyffredin yn hynod am gysgu. Cysgai ar gefn ceffyl wrth fyned i'r farchnad. Weithiau wrth gorddi neu drin ymenyn. Un tro pan gyda'i hysten ar y cae yn godro y fuwch cysgodd yn drwm ac Owen o ddireidi bachgenaidd yn rhoddi pinsiad i'r fuwch i fyned ymlaen. Yno y bu Ann Owen am dipyn yn tynnu fel pe buasai yn godro y fuwch a hithau wedi mynd ers meityn, hyd nes i rywun o bentref Tynygongl ddyfod heibio i'w deffro, a'r bachgen yn mwynhau yr hwyl yn galonog …'

O ystyried mai ffermwr cyffredin oedd Hugh Williams, mae safon ieithyddol y gerdd a'r traethawd, wedi ei hysgrifennu mewn llawysgrif glir a thaclus, o ansawdd graenus. Cyflwynodd ei gronicl a'i gerdd yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas yn Mawrth 1904.

Arweiniodd Hugh Williams ar ei ddadl olaf ar 25 Tachwedd 1904 ar bwnc addas iawn iddo: *'Pa un ai maintais neu anfantais i grefydd yn Nghymru fyddai dadgysylltu a dadwaddoli'*. Enillwyd y ddadl, gyda 23 yn gadarnhaol a 7 yn nacaol.

Roedd Hugh Williams hefyd yn ymddiddori mewn hanes lleol yr ardal. Mae gohebiaeth rhyngddo â'r newyddiadurwr a'r llenor *Anthropos* (Robert David Rowland, 1853-1944) yn sôn am deulu Goronwy Owen ag oedd yn byw yn plwyf.[133]

**Achosion Eraill**

Roedd Hugh Williams yn aelod o lu o fudiadau ac achosion eraill. Yr  oedd yn ymddiriedolwr sawl cymdeithas elusengar.[134]

Yn 1891 cynhaliwyd cyfarfod yn yr ardal i gefnogi adeiladu rheilffordd i Foelfre:

> 'Cais am Reilffordd Newydd yn Môn – Cynhaliwyd cyfarfod lluosog a dylanwadol yn Ysgol y Bwrdd, Pentraeth, nos Fawrth, er ystyried pa gynllun i'w gymeryd er dylanwadu ar Gwmni y London & North Western Railway i wneyd rheilffordd o orsaf Llanfair P.G. i Moelfre … Penodwyd y rhai canlynol ar y pwyllgor … Mr Hugh Williams, Pantysaer …'[135]

Er yr oedd disgwyl mawr am y rheilffordd, fe gymerodd ddeunaw mlynedd arall cyn i'r rheiffordd gyrraedd Traeth Coch, ar gyrion Benllech, ac agorwyd hi yn haf 1909.

---

[133] *Papurau Anthropos 39*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[134] Mae ei enw ar restr 'return' o 'endowed charity' yn Aberffraw yn 1897 – *House of Commons Parliamentary papers.*
[135] *Y Genedl Gymreig*, 11 Mawrth 1891.

Roedd Hugh Williams yn cadeirio ac yn beirniadu yng nghyfarfodydd cystadleuol ac adloniadol pentrefi cyfagos, ac yn gohebu i'r papur newydd ar newyddion y plwyf o dan yr enw *'Ap Mathafarn'*:

> '*Ymosodiad Llwfr*. – Nos Iau diweddaf gwnaeth rhyw ddyhirod ymosodiad ar dy Mr Edward Parry, Shop Tabernacl, trwy luchio ceryg trwy y ffenestr, ond mae yn dda na wnawd dim niwed i neb. Gresyn na fuasai modd eu dal ar y pryd.'
>
> '*Y Ddaeargryn*. – Teimlwyd mewn amryw leoedd ysgydwad y ddaeargryn ddydd Gwener. Tua deg o'r gloch yr oedd amryw deuluoedd yn y Benllech yn clywed y llestri a'r ffenestri yn clecian.'[136]

Yr oedd yn aelod llawn o'r gymdeithas, a gymerodd rhan yn nathliadau'r fro:

> '*Llawenydd Priodasol yn Ty'nygongl* … Yr oedd pentref Ty-nygongl a'r ardal yn gyffredinol yn llawn berw ddydd Gwener diweddaf ar yr achlysur o ddychweliad Mr W. Daniel Williams, Post Office, Ty'nygongl a'i briod hawddgar o'u "mis mel."… cafwyd sylwadau pellach gan Mr Hugh Williams, Pantysaer.'[137]

**Marwolaeth a Theyrngedau**

Bu farw Hugh Williams yn ddisymwth ar 6 Rhagfyr 1904 mewn damwain ar yr allt i fyny o Bant-y-Saer i'r ffordd fawr i Rosfawr. Cafwyd adroddiad llawn am y ddamwain yn y papur lleol:

> 'Aeth Hugh Williams allan gyda'r drol tua un ar ddeg o'r gloch, boreu Llun, pan y dychrynwyd yr anifail gan rhyw 'gilbostiau' oedd ar ochr y ffordd, tua 'one eighth of a mile' oddiwrth ei dŷ (Pantysaer). Trodd yr anifail yn sydyn yn ôl, a rhedodd yn enbyd. Yr oedd Hugh Williams yn eistedd yn y drol. Torodd ei 'reins' a thaflwyd yntau mewn llwybr cul. Aeth y drol dros ei glun, a thorwyd hi, yn nghydag anafu y llall yn ddifrifol, heblaw iddo daraw ei ben. Rhedodd yr anifail yn mlaen, trodd y drol, torodd y strapiau yn glir o'r holl 'gears' a gwelwyd y ceffyl yn rhydd gan y forwyn, a dim ond darnau o strapiau. Rhedodd i edrych a welai Hugh Williams, a chanfyddwyd ef yn y ffos mewn cyflwr difrifol, er yn hollol wybodol. Cariwyd ef i'r tŷ gan ei gymdogion agos mewn cadair, ac anfonwyd ar unwaith am Mr J Hughes, Hen Eglwys. Gweinyddwyd arno, a chynghorodd hwynt i gael meddyg arall, gan ei fod wedi ei niweidio yn enbyd drwy ei holl gorph. Gweinyddwyd yn mhellach arno gan Dr Prytherch, Llangefni[138]; a deallwyd ei fod wedi derbyn niweidiau marwol i'w ben, a hunodd yn dawel, heb ddweyd gair er tua pump o'r gloch nos Lun, am ddeuddeg o'r

---

[136] *Gwalia*, 30 Mehefin 1903.
[137] *Gwalia*, 15 a 22 Hydref 1901.
[138] Mae cofnod yn nyddlyfr Dr John R Prytherch yn dangos ei fod wedi ymweld â Hugh Williams – costiodd £1.1s (gini) i'w alw allan; talwyd y bil yn mis Mawrth 1905 (Archifau Môn, WD28).

gloch boreu Mawrth. Pe buasai wedi cael byw hyd ddoe (dydd Sul), buasai yn 61 mlwydd oed.'[139]

Ysgrifenodd John Roberts am ei oriau olaf:

> 'Wedi iddo gael ei ddwyn i'w dŷ ar ol y ddamwain, a chyn i'r meddyg gyrhaedd, dywedai wrth ei briod, "Gwell i ni gael y ddyledswydd yn bresenol tra y bydd ychydig o hamdden. Darllenodd Mrs. Williams ran o'r Ysgrythur. "Mi af i weddi," meddai yntau, ac felly y bu. Gofynai i'r Arglwydd os oedd yn unol a'i ewyllys, am gael gwellhad: ond os nad oedd, am iddynt gael cymhorth i ddweyd, "Gwneler dy ewyllys."'[140]

Daeth nifer fawr i'r cynhebrwng, gan gynnwys deuddeg o weinidogion. Roedd adroddiad llawn yn y papur lleol:

> 'Dydd Gwener diweddaf, cawsom y gorchwyl pruddaidd o gladdu un o 'ŵyr mawr' Môn, ac yr oedd hyny i'w weled yn amlwg yn y nifer a ddaeth i'w hebrwng i 'dir ei hir gartref', er mor arw oedd yr hin ... anerchodd y Parch J. Roberts y gynulleidfa gyda theimlad dwys. Dywedodd ei fod wedi colli y cyfaill goreu oedd ganddo, a'r dyn mwyaf cyflawn gyfarfyddodd erioed; dyn ag oedd yn llenwi swyddi pwysig, a byddai y golled yn un fawr mewn llawer cylch; ond credai mai eglwys y Tabernacl oedd yn cael y 'slap' fwyaf. Yna cafwyd gair gan liaws mawr o weinidogion a blaenoriaid … a chafwyd gair byr gan ei gyd-flaenor, Mr John Thomas, Bwlch. Dywedodd ei fod wedi cyd-weithio gyda'r ymadawedig ers 28 mlynedd, ac erioed heb gael gair croes. Yr oedd hyny yn dweyd llawer…. Yna gweddïwyd gan y Parch J H Williams ar lan y bedd, a chanwyd yr emyn 'O! Dduw, rho i'm Dy hedd,' ac ail-ganwyd; ac er ei bod yn wlyb, nid oedd neb mewn brys. Yr oedd cyfeillion y Tabernacl wedi darparu ymborth ar gyfer y dieithriaid, ac eisteddodd tua 100 wrth y byrddau. Anfonwyd wreath brydferth gan y Gymdeithas Lenyddol, fel arwydd o barch i'w cyfaill ffyddlon. Nid oes rhaid dweyd am rinweddau Mr H Williams yn Môn, ac, yn wir, yng Nghymru. Yr oedd enw Mr Hugh Williams, Pantysaer, yn adnabyddus i bawb. Yr oedd yn aelod o lawer iawn o wahanol gymdeithasau, sef y Cyfarfod Misol, Cyfarfod Ysgol, Cyfarfod Dosbarth, Gymanfa Ddirwestol, Gymdeithas Rhyddfrydol, ac amryw eraill. Nis gall neb ddychmygu sut yr oedd yn gallu dilyn yr oll o'r uchod mor gyson.'

Cafwyd nifer o deyrngedau llawn iddo:

> 'Yr oedd yn ddyn darllengar a meddylgar, ac yn ddiau yn un o oreuon dosparth o ddynion sydd yn dechreu myn'd yn brin yn y wlad, fel y mae waetha'r modd. Bydd colled fawr iawn ar ei ol mewn llawer cylch.'[141]

---

[139] Hefyd *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Rhagfyr 1904.
[140] J. Roberts, op. cit.
[141] *Yr Herald Cymraeg*, 13 Rhagfyr 1904.

'Yr oedd yn gymmeriad ardderchog, o argyhoeddiadau dyfnion, a chrefydd ddiammheuol, ac wedi gwneyd gwasanaeth mawr mewn byd ac eglwys. Yr oedd yn Ymneilldüwr i'w waelod, ac nid oedd yn barod i blygu na throi yn ol er neb, a bu yn gefn i'r gymmydogaeth yn y peth hyn lawer gwaith, gan ymladd ei brwydrau, a dyfod allan yn orchfygwr, er gorfod dioddef wrth wneyd hyny; a dïau fod dyled yr ardalwyr iddo yn gyfryw nas gellir ei thalu. Gwnaeth waith mawr dros ddirwest a rhinwedd. Bu yn llywydd y pwyllgor a'r gymmanfa ddirwestol am gyfnod hir, ac nid oedd ei ffyddlonach, nac aelod mwy egnïol gyda hyn yn Ngogledd Cymru. Yr oedd yn flaenor, er yn ieuangc iawn, yn y Tabernacl, a dïau mai arno ef y gorphwysodd baich trymaf y cyfrifoldeb gyda'r achos am flynyddoedd. 'Hugh Williams oedd raid gwneyd pob peth, am ei fod yn gallu ei wneyd yn iawn.' Byddai yn bresennol ym mhob cyfarfod misol, ac y mae ammheus a welwyd un cyfarfod nad oedd yno, ac yn cymmeryd rhan amlwg yn y gwaith. Yr oedd mor hynod yn hyn fel y dywedid yn gyffredin fod y cyfarfod misol wedi dyfod pan y gwnai ei ymddangosiad. Byddai yn bresennol yn fynych mewn cymdeithasfaoedd, ac yn ŵr o farn yn eu llysoedd; a dïau nad oedd neb mwy galluog a chlir ei feddwl, a dawn i egluro ei feddwl, yn mysg swyddogion y gymmanfa na'r brawd hwn. Etto, death i'r pinacl hwn, nid trwy amgylchiadau, a thrwy unrhyw ddylanwad annhêg o eiddo eraill, o blegid cyffredin oedd ei amgylchiadau, a'i uchelgais yn fychan, ond daeth i hyn trwy allu, argyhoeddiad, a ffyddlondeb, ac yn nerth crefydd bersonol. Gadawodd briod, a phlentyn, i alaru eu colled, a pherthynasau eraill, ynghyd â gwlad gyfan mewn hiraeth ar ei ol. Yr wyf yn meiddio awgrymu hyn, fod cyfarfod misol Môn yn codi côf-golofn ar ei fedd, canys dylai wneyd, 'o blegid yr oedd efe yn haeddu gwneuthur' o'r cyfarfod misol hyn iddo.'[142]

'"Yn ei ymadawiad," ysgrifena y Parch. T. Charles Williams, M.A., "collodd Môn un o'r diaconiaid goreu fu yma o'r cychwyn. Gwyr Duw, ond nis gwyddom ni, pwy all lanw ei le yn eglwys y Tabernacl, yn y Cyfarfod Misol, a'r Cyfarfod Ysgolion.'[143]

'Yr oedd yn ddigon mawr i ambell un cryn lawer llai nag ef ei hun i edrych i lawr arno; yn ddigon cydwybodol, gwrol, a byw fel aelod o gymdeithas, fel ag i gael ei iselhau, ac yn ddigon crefyddol i gael ei erlid gan rai heb feddu y filfed o'i rinweddau … Yn y Seiat ddiweddaf y bu ynddi yr oedd yn son llawer am ddiwygiad crefyddol, ac amlygai ei fod yn disgwyl am ei weled, fel yn '59.'[144]

Caewyd Ysgol y Bwrdd, Tabernacl ar brynhawn yr angladd.

Cofnodwyd marwolaeth Hugh Williams yng Nghyfarfod Misol Amlwch ar 12 Rhagfyr:

---

[142] *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Rhagfyr 1904.
[143] J. Roberts, op. cit., 167.
[144] J. Roberts, *Y Greal,* 167.

> 'Gwnaed coffhâd parchus am y diweddar Mr. Hugh Williams, Pantsaer, yr hwn a gyfarfyddodd a'i farwolaeth drwy ddamwain adfydus. Yr oedd Mr Williams yn un o aelodau ffyddlonaf y C.M., a'i holl ddylanwad o blaid pob symudiad dawnus. Meddai syniadau eang, barn aeddfed, ac ysbryd rhagorol; ac yn golofn gadarn yn y C.M.. Yn ei ymadawiad nid yn unig y mae eglwys y Tabernacl a'r Dosbarth wedi cael colled, ond hefyd y C.M a'r wlad. Pasiwyd i anfon llythyrau i amlygu cydymdeimlad a'i weddw, ac hefyd ag eglwys y Tabernacl.'[145]

Pasiwyd pledlais o gymdymdeimlad at ei wraig gan Gymanfa Ddirwestol Gwynedd.[146]

Dyma'r cofnod yn *Cofnodion Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy* am 16 Rhagfyr 1904:

> 'Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad a pherthynasau y diweddar Mr Hugh Williams ar gynygiad y Cadeirydd [Parch I Parry] yn cael ei eilio gan y Parch J Roberts, wedi i Mr Parry roddi tystiolaeth uchel o allu a rhinweddau yr ymadawedig. Cafwyd rhai gwersi ar gymeriad y diweddar Mr Hugh Williams gan y Parch J Roberts.'

Yng nghyfarfod y Gymdeithas ar 2 Chwefror 1906 fe ddarllenwyd llinellau coffadwriaethol iddo gan Miss E.J. Roberts, athrawes yn Ysgol Ty'nygongl.

Ysgrifennodd "*Llwydiarth Môn"* (David Thomas, yn wreiddiol o Draeth Coch) farwnad i Hugh Williams, ac roedd y gerdd yn fuddugol yn Ngŵyl Lenyddol "*Bro Goronwy*," 26 Ionawr 1906.[147] Mae'r farwnad yn diweddu:

> 'Gorphwysa bellach, weithiwr gonest, diwyd,
>
> Mae cwsg yn felus ar ol diwrnod gwaith;
>
> A ninau mwy, eneiniwn lwch dy weryd
>
> A dagreu hiraeth am flynyddau maith;
>
> Tra byddo nerth a gwerth mewn gwir brydferthwch,
>
> Tra byddo rhinwedd yn teilyngu urdd;
>
> Dy goffadwriaeth saif yn nôd hawddgarwch
>
> Yng ngardd ein hadgof, fel blodeuyn gwyrdd.'

Penderfynodd y Gymdeithas i argraffu'r farwnad a rhoi copi i bob aelod.

---

[145] *Cofnodion y Cyfarfod Misol, Sir Fôn,* Archifdy Môn; hefyd adroddiad yn *Y Goleuad, 23* Rhagfyr 1904 a *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Mai 1906.
[146] *Y Tyst*, 1 Ionawr 1905.
[147] Archifau Môn, WDAC/10.

Gan ei fod wedi marw mor ddisymwth, ni adawodd Hugh Williams ewyllys; rhoddwyd profiant i'w wraig Margaret.[148] Gadawodd eiddo personol gwerth £1,076 19s. Trosglwyddwyd Pant-y-Saer ac eiddo Hugh Williams i Margaret yn Ebrill 1905. Rhoddodd hithau Bant-y-Saer yn anrheg ('deed of gift') i fy nhaid, Henry Richard Rowlands, yn 1955.




*Carreg bedd Hugh Williams*

Mae Hugh Williams wedi ei gladdu gyda Margaret yn mynwent Tabernacl, gyda'r arysgrif 'Bu yn flaenor ffyddlawn yn Eglwys Tabernacl am 27 o flynyddoedd.' Bu farw Margaret yn 1956, yn 89 mlwydd oed.

Roedd Hugh Williams yn 60 oed pan fu farw. Roedd yn un o ddynion mwyaf diwyd ei fro, ac yn ei anterth pan ddigwyddodd y ddamwain angheuol. Erbyn hynny, roedd yn berchen ar fferm lwyddiannus Pant-y-Saer, gyda gwas a morwyn, ac wedi priodi ers tair blynedd. Roedd yn flaengar gydag arweinyddiaeth yr eglwys Fethodistaidd Galfinaidd ym Môn a'r mudiad ddirwestol, roedd wedi sefyll yn ddiweddar dros y Rhyddfrydwyr mewn etholiad i'r Cyngor Sir, yr oedd wedi gwasanaethu ar ran ei gymdogaeth ar lu o gymdeithasau ac elusennau, ac wedi dangos ei ddoniau llenyddol. Yr oedd yn ddyn ag oedd yn hollol nodweddiadol o'i gyfnod a'i fro.

Bu farw Hugh Williams ychydig fisoedd cyn i'r diwygiwr Evan Roberts ymweld â'r ynys, pan anerchodd gynulleidfa o rhwng tair mil a thair mil a hanner ar y maes o flaen y Tabernacl,[149] a llwyddiant ysgubol y Blaid Ryddfrydol yn yr Etholiad Seneddol ar ddechrau 1906 – dau ddigwyddiad a fyddai wedi bod wrth ei fodd. Bu farw cyn ei amser, gan adael i ni ddyfalu beth arall y byddai wedi gallu ei gyflawni.

**Emyr Roberts, 199 Ffordd Cyncoed, Caerdydd CF23 6AJ**

**Rhagfyr 2019**

[148] Hysbysebion, *Yr Herald Cymraeg*, 21 Chwefror 1905, *London Gazette.*
[149] R. Tudur Jones, Tân ar yr Ynys (Caernarfon, 2004).